

Agenda – Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 3 – Senedd	Llinos Madeley
Dyddiad: Dydd Mercher,	Clerc y Pwyllgor
20 Ionawr 2016	0300 200 6565
Amser: 09.30	Seneddlechyd@Cynulliad.Cymru

Yn ei gyfarfod ar 14 Ionawr 2016, penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) ar gyfer eitem 1 o'r cyfarfod a gynhelir ar 20 Ionawr 2016.

- 1 Sesiwn Craffu gyda Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru: paratoi ar gyfer sesiwn dystiolaeth lafar**
(09.30 – 09.45) (Tudalennau 1 – 14)
- 2 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon**
(09.45)
- 3 Sesiwn graffu gyda Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru: dilyniant i ymchwiliad y Pwyllgor i ofal preswyl i bobl hŷn ac adolygiad y Comisiynydd o gartrefi gofal**
(09.45 – 11.15) (Tudalennau 15 – 86)
Sarah Rochira, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Gwybodaeth ategol:

- [Ymchwiliad y Pwyllgor i ofal preswyl i bobl hŷn](#)
- [Adolygiad o Gartrefi Gofal y Comisiynydd](#)

Noder: Mae'r adroddiadau cynnydd gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Llywodraeth Cymru i'r Comisiynydd, y cyfeirir atynt yn



Ilythyr y Gweinidog, wedi'u cyhoeddi yn atodiadau C a D o dystiolaeth ysgrifenedig y Comisiynydd.

- 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn**
(11.15)
- 5 Sesiwn graffu gyda Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru: trafod y dystiolaeth**
(11.15 – 11.30)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon



David Rees AC
Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Y Swyddfa Ddeddfwriaeth
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Cambrian Buildings
Mount Stuart Square
Cardiff CF10 5FL

Adeiladau Cambrian
Sqwâr Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FL

18 Tachwedd 2015

Annwyl Gadeirydd,

Diolch am y cyfle i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol cyn imi fynychu'r pwyllgor hwnnw ar 20 Ionawr 2016. Mae'r dystiolaeth yn amgaaedig.

Gofal Preswyl

Oherwydd ystod a chymhlethdod y gwahanol faterion, rwyf wedi grwpio'r sylwadau yn fy ymateb drwy ddefnyddio'r Model Ansawdd Bywyd oedd yn rhagflaenu fy Adolygiad ac mae'n cysylltu'n uniongyrchol i argymhelliad allweddol 7 Ymchwiliad y Pwyllgor i Ofal Preswyl.

Mae hyn yn darparu fframwaith seiliedig ar ganlyniadau er mwyn gallu creu lefel o sicrwydd a barnu effaith y gwaith sydd ar y gweill yn ei erbyn. Hwn hefyd fydd y fframwaith cyffredinol a ddefnyddiaf ar gyfer fy Adolygiad Dilynol. Er mwyn cadw'r ffocws yn siarp, rwyf wedi canolbwyntio ar y meysydd lle mae'r effaith i'w gweld fwyaf.

Fy ngwaith yn y dyfodol gyda gwasanaethau gofal rheoledig yng Nghymru

Wele'r pwynt isod ynghylch beth fydd fy mlaenoriaethau am y 12 mis nesaf. Bydd gennyf ddiddordeb mewn clywed barn y pwyllgor am eu rhaglen waith, ac yn cydnabod y bydd hyn bellach yn digwydd o dan y



Ilywodraeth nesaf, er mwyn parhau i adeiladu ar y berthynas waith effeithiol sydd rhyngom fel cyrff craffu.

Canfyddiadau buan fy ymchwil i ddementia

Ar hyn o bryd rwyf wrthi'n adolygu canfyddiadau'r gwaith ymchwil hwn, gan ddisgwyl y caiff ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2016.

Fy mlaenoriaethau am y 12 mis nesaf

Ar hyn o bryd rwyf yn aros am ganlyniad yr ymgynghoriad cyhoeddus i'r cynnig i roi pwerau i Brif Weinidog Cymru i ymestyn cyfnod fy swydd. Ni wn eto pryd y caf wybod beth fydd canlyniad hyn nac ychwaith beth fydd bwriad y Prif Weinidog. Os penderfynir ymestyn cyfnod fy swydd, yna byddaf yn fuan wedyn yn cyhoeddi rhaglen waith fydd yn ategu'r ddwy flynedd olaf yn fy swydd fel Comisiynydd.

Er hynny, fy mwriad yw datblygu'r gwaith o wneud grymuso pobl hŷn a gwireddu eu hawliau'n rhywbeth real, o warchod a diogelu pobl sy'n agored i niwed neu mewn perygl o gael niwed a sicrhau y gall pobl hŷn gael gafael ar y gwasanaethau a'r cymorth sydd ei angen arnynt i'w helpu i heneiddio'n dda.

Byddaf yn parhau i adeiladu ar y partneriaethau da a greais dros y tair blynedd a hanner diwethaf, ond bwriadaf hefyd ddefnyddio fy mhwerau craffu ffurfiol lle tybiaf mai'r pwerau hynny yw'r ffordd orau o yrru newid.

Os bydd angen unrhyw beth arall arnoch cyn fy sesiwn dystiolaeth ym mis Ionawr, cofiwch gysylltu â fy swyddfa ar bob cyfrif.

Yn gywir,



Sarah Rochira
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Amserlen Adolygu: Awst-Rhagfyr 2015

11 Awst 2015

Y Comisiynydd yn cyhoeddi datganiad ynglŷn ag ymatebion cyrff cyhoeddus/statudol i'w Hadolygiad (**Atodiad A**).

Y datganiad yn amlygu bod Llywodraeth Cymru ac AGGCC wedi methu sicrhau'r Comisiynydd bod gwaith ar y gweill neu'n mynd rhagddo eisoes i gyflawni'r canlyniadau i bobl hŷn sydd wedi eu nodi yn Adroddiad y Comisiynydd ar ei Hadolygiad o Gartrefi Gofal.

Awst-Tachwedd 2015

Aros am wybodaeth atodol gan Lywodraeth Cymru a sicrwydd gan AGGCC y bydd y canlyniadau gofynnol yn cael eu cyflawni.

10 Tachwedd 2015

Y Comisiynydd yn cyhoeddi'r datganiad 'Blwyddyn yn Ddiweddarach' (**Atodiad B**), sy'n cynnwys y diweddaraf am ymatebion Darparwyr Cartrefi Gofal i'w Hadolygiad, a rhagor o wybodaeth am y camau gweithredu y mae cyrff cyhoeddus yn eu cymryd. Y Comisiynydd yn amlinellu hefyd pa waith dilynol y bydd hi'n ei wneud yng nghyswllt yr Adolygiad.

Nid oedd modd i'r Comisiynydd ddarparu diweddariad ynglŷn â sicrwydd o ran y Gofynion ar gyfer Gweithredu a ddyrannwyd i Lywodraeth Cymru, gan nad yw wedi darparu rhagor o wybodaeth am y camau gweithredu mae wedi eu cynllunio neu sydd ar waith ganddi eisoes er mwyn cyflawni'r canlyniadau gofynnol i bobl hŷn.

Y Comisiynydd yn ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i fynegi ei siom ac i nodi ei pharodrwydd parhaus i gynnig cyngor a chymorth er mwyn cyflawni'r camau gweithredu.

27 Tachwedd 2015

Cael llythyr gan y Prif Arolygydd gyda gwybodaeth atodol am Ymateb AGGCC i'r Adolygiad (**Atodiad C**).

08 Rhagfyr 2015

Llywodraeth Cymru yn darparu ymateb terfynol / gwybodaeth atodol **(Atodiad D)**.

23 Rhagfyr 2015

Y Comisiynydd yn ysgrifennu at Brif Arolygydd AGGCC **(Atodiad F)** a'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol **(Atodiad G)** i gadarnhau eu bod bellach wedi rhoi digon o sicrwydd i'r Comisiynydd eu bod wedi cynllunio camau gweithredu neu wedi eu rhoi ar waith eisoes er mwyn cyflawni'r canlyniadau gofynnol i bobl hŷn.



Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Ymateb Comisiynydd

Pobl Hŷn Cymru i

**Bwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**ar y camau a gymerwyd i weithredu
argymhellion a wnaed yn adroddiad y Pwyllgor
ar ofal preswyl ar gyfer pobl hŷn a
'Lle i'w Alw'n Gartref?'**

Rhagfyr 2015

Am ragor o wybodaeth am yr ymateb hwn, cysylltwch â:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru,
Adeiladau Cambrian,
Sgwâr Mount Stuart,
Caerdydd, CF10 5FL
08442 640670

Amdan y Comisiynydd

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn llais annibynnol ac yn bencampwr dros bobl hŷn ar draws Cymru, gan sefyll i fyny drostynt a siarad ar eu rhan. Mae'n gweithio i sicrhau bod y rhai sy'n agored i niwed ac mewn perygl yn cadw'n ddiogel ac yn sicrhau bod gan bob person hŷn lais sy'n cael ei glywed, bod ganddynt ddewis a rheolaeth, nad ydynt yn teimlo'n ynysig na bod pobl yn gwahaniaethu yn eu herbyn a'u bod yn derbyn y cymorth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt. Mae gwaith y Comisiynydd wedi'i sbarduno gan yr hyn y mae pobl hŷn yn ei ddweud sydd bwysicaf iddynt ac mae eu lleisiau wrth galon popeth y mae'n ei wneud. Mae'r Comisiynydd yn gweithio i wneud Cymru'n wlad dda i fynd yn hŷn ynddi – nid dim ond i rai ond i bawb.

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru:

- Yn hyrwyddo ymwybyddiaeth o hawliau a buddiannau pobl hŷn yng Nghymru.
- Yn herio gwahaniaethu yn erbyn pobl hŷn yng Nghymru.
- Yn annog arferion gorau wrth drin pobl hŷn yng Nghymru.
- Yn adolygu'r gyfraith sy'n effeithio ar fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru.

Gofal Preswyl yng Nghymru: lle'r ydyn ni heddiw

Yn gynyddol, mae polisi a deddfwriaeth ddiweddar gan Lywodraeth Cymru, fel Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, wedi canolbwyntio ar helpu pobl hŷn i aros yn eu cartrefi eu hunain a bod yn annibynnol am gyn hired â phosibl. Mae hyn i'w groesawu oherwydd mae gan y ffocws ar ail-alluogi, atal a chanlyniadau lles botensial i newid bywydau'r unigolion hyn yn aruthrol. Fodd bynnag, mae hefyd yn bwysig iawn na cholli'r ffocws ar sicrhau bod gan y 23,000 o bobl hŷn sy'n byw yn y 674 o gartrefi gofal ar draws Cymru fywyd o'r ansawdd gorau posibl.

Dyna pam y penderfynais gynnal fy Adolygiad o Gartrefi Gofal¹, oedd yn adeiladu ar Ymchwiliad Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Cynulliad Cenedlaethol i Ofal Preswyl ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru.

Fel y gwyddoch, mae'r canfyddiadau'n debyg iawn: diffyg sensitifrwydd i anghenion pobl sy'n byw gyda dementia ac i anghenion eu gofalwyr, methu â chydabod pwysigrwydd gweithgareddau a phwrpas ystyrion ym mhrofiadau byw pobl hŷn, lefelau isel o fynediad at eiriolaeth annibynnol i breswylwyr presennol a darpar breswylwyr cartrefi gofal, mynediad anghyfartal at ofal iechyd y GIG, amrywiadau eang rhwng arferion comisiynu ar draws Cymru a methu â chydabod bod y sector cartrefi gofal yn un o bwysigrwydd strategol cenedlaethol. Mae'r themâu hyn hefyd wedi eu cydnabod yn fwy diweddar yn Adolygiad Flynn, Ymchwiliad Cartrefi Gofal John Kennedy, yn y Comisiwn ar Ofal Preswyl ac yn y gwaith sy'n parhau i gael ei wneud gan Sefydliad Joseph Rowntree i alluogi pobl hŷn i fyw bywydau gwell mewn gofal hirdymor.

Mae newid sylfaenol yn digwydd o ran meddwl a gweithredu sy'n cydnabod yn gynyddol bod ansawdd bywyd pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yn bwysig. Fodd bynnag, ni chyflawnir lefel y newid diwylliant sydd ei angen oni chydabyddwn fod y rhyngweithio a'r perthnasoedd rhwng pobl hŷn a staff cartrefi gofal nid yn unig yn cael eu diffinio gan reolwyr a darparwyr cartrefi gofal, ond hefyd gan gomisiynwyr, arolygwyr a rheoleiddwyr, sydd i gyd yn cyfrannu at ac yn dylanwadu ar y diwylliant gofal drwy eu

¹ Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru 'Lle i'w Alw'n Gartref? Adolygiad o Ansawdd Bywyd a'r Gofal a roddir i Bobl Hŷn sy'n byw mewn Cartrefi Gofal yng Nghymru, 2014

gweithredoedd ac sydd â dyletswydd i gryfhau'r safonau newydd ar gyfer cartrefi gofal o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Mae angen dull system gyfan wedi'i gweu o gwmpas ansawdd bywyd lle mae holl elfennau'r system yn deall eu heffaith ar ganlyniadau a lle mae ganddynt drefniadau a dulliau effeithiol yn eu lle i ddarparu'r canlyniadau y mae gan bobl hŷn hawl i'w mwynhau.

Am y rhesymau hyn rwyf yn croesawu'r gefnogaeth gref ar draws y sector i'r Adolygiad a'r Gofynion Gweithredu, a hefyd i sefydlu Grŵp Llywio Cartrefi Gofal Llywodraeth Cymru er mwyn rhoi arweinyddiaeth a sicrhau y gweithredir i fynd i'r afael â'r materion a godir yn fy Adolygiad ac yn yr adolygiadau / ymchwil y cyfeiriaf atynt uchod.

Gweithredu'r Model Ansawdd Bywyd

Fel y nodir yn fy Fframwaith Gweithredu 2013-17, sy'n disgrifio fy mlaenoriaethau fel Comisiynydd, mae gennyf ddiddordeb eang mewn ansawdd iechyd a gofal cymdeithasol ac effaith hynny ar ansawdd bywyd pobl hŷn.

Drwy ymgysylltu'n helaeth â phobl hŷn wrth ddatblygu'r Fframwaith, datblygais fy Model Ansawdd Bywyd sy'n nodi'n glir bod gan bobl hŷn ansawdd bywyd da os:

- Ydynt yn teimlo'n ddiogel a bod pobl yn eu parchu, eu gwerthfawrogi ac yn gwrandao arnynt
- Medrant gael yr help sydd ei angen arnynt
- Medrant wneud y pethau sy'n bwysig iddynt
- Ydynt yn byw yn rhywle sy'n addas iddyn nhw a'u hanghenion

Pan gyflawnir yr holl bethau hyn, mae pobl hŷn yn teimlo bod ganddyntlais yn ogystal â dewis a rheolaeth dros eu bywydau, a bod gan eu bywydau werth, ystyr a phwrpas.

Mae mwynhau yr ansawdd bywyd gorau posibl yn eithriadol bwysig i bawb ac mae'n hanfodol bod hyn yn cael ei gydnabod yn ffurfiol a'i roi wrth galon y sector cartrefi gofal preswyl a nyrsio yng Nghymru.

Rwyf felly wedi strwythuro'r ymateb hwn o gwmpas fy Model Ansawdd Bywyd gan nodi i ba raddau y credaf y gallai neu y bydd pob canlyniad yn effeithio ar Ansawdd Bywyd preswylwyr cartrefi gofal, heddiw ac i'r dyfodol.

Beth wyddon ni am bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal?

Wrth i bobl fyw'n hŷn, maen nhw hefyd yn cael eu derbyn i gartrefi gofal yn hŷn ac mae'r gweithlu cartrefi gofal felly'n cynorthwyo unigolion sy'n fwyfwy emosiynol a chorfforol eiddil ac yn aml yn byw gydag amryfal gyflyrau iechyd. Mae'n bwysig nodi bod gan dros 70 y cant o'r holl breswylwyr 65+ oed mewn cartrefi gofal ryw fath o ddementia, bod gan un o bob tri o bobl 85+ oed nam ar eu golwg a 71.1 y cant o bobl 70+ oed nam ar eu clyw. Yn aml iawn mae gan bobl gyda dementia difrifol hefyd nam ar eu synhwyrau o ganlyniad i gyflwr llygad sy'n gysylltiedig â heneiddio a / neu ddifrod i'r ymennydd o ganlyniad i ddementia. Erbyn 2030, disgwylir i'r gyfran o bobl 85+ oed yn y Deyrnas Unedig ddyblu ac, o ganlyniad, bydd cynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy'n byw gyda dementia a nam ar eu synhwyrau mewn cartrefi gofal yng Nghymru.

Mae tystiolaeth fy Adolygiad o Gartrefi Gofal a thystiolaeth o waith ymchwil / adroddiadau eraill, ac o waith gan reoleiddwyr ac arolygwyr, yn glir nad yw'r system cartrefi gofal wedi'i harfogi'n ddigonol eto i gwrdd ag anghenion cynyddol gymhleth pobl hŷn. Gwelir hyn yn amlwg o'r defnydd amhriodol o gyffuriau gwrthseicotig mewn cartrefi gofal preswyl a nyrsio i geisio rheoli'r symptomau ymddygiad a seicolegol sy'n gysylltiedig â dementia, a nodir effaith hynny'n glir gan y dyfyniad isod.

Mae'r dystiolaeth nad yw'r system cartrefi gofal yng Nghymru'n ddigon datblygedig eto i gwrdd ag anghenion cynyddol gymhleth pobl hyn i'w gweld yn glir:

'Pan oedd hi yn y Cartref roedd ar gyffuriau i'w 'thawelu' ddydd a nos. Eglurwyd mai'r rheswm am hynny oedd, oherwydd nad oedd digon o staff, ei bod yn haws i'w symud a'i rheoli. Doedden ni ddim eisiau hynny. Ymddengys eu bod yn ei thrin fel pe bai'n rhywun hollol ddibwys, heb hanes iddi o gwbl.....'²

Er bod y dyfyniad hwn, a gynhwyswyd yn yr adroddiad ar fy Adolygiad o Gartrefi Gofal, gan aelod o deulu oedd yn siarad am bethau a ddigwyddodd gryn amser yn ôl, mae'n dal i fod yr un mor berthnasol heddiw. Dyma un o'r llu rhesymau pam ei bod mor bwysig sicrhau bod ansawdd bywyd a system hawliau'n rhan annatod o ddarparu gofal.

Mae effaith methiant y bwriad gan Gymru i roi ansawdd bywyd wrth galon ein system cartrefi gofal yn parhau i fod yn sylweddol i ormod o bobl hŷn. Rhaid felly i brawf y gweithredu hynod bwysig sydd bellach ar waith fod yn ansawdd bywyd y bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yng Nghymru.

Dull seiliedig ar hawliau

Un o'r cyfleoedd nad ydym eto yn ei ddeall yn iawn, nac ychwaith wedi dechrau ei ddefnyddio fel dull o weithredu, yw'r dull seiliedig ar hawliau o ddarparu gofal preswyl (wele'r adran o dan Ganlyniad 3: Gallaf wneud y pethau sy'n bwysig i mi). Yn 2014, lansiodd Lywodraeth Cymru ei 'Datganiad Hawliau i Bobl Hŷn', ac er nad oes ganddo statws cyfreithiol mae'n dystiolaeth fod creu Cymru lle gall pobl hŷn fwynhau eu hawliau a byw'n rhydd o gael eu cam-drin a'u hesgeuluso ac o wynebu gwahaniaethu ar sail oed ac fel arall, yn parhau i fod yn hynod bwysig. Hefyd, y Senedd yw'r ddeddfwrfa gyntaf yn y Deyrnas Unedig i roi Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn ar wyneb deddfwriaeth, sy'n gychwyn da i Gymru adeiladu arno, ond nid yn ddigon. Felly ar Ddiwrnod Hawliau Dynol eleni, roeddwn yn galw am greu un darn o ddeddfwriaeth i gyfuno nifer o offerynnau sy'n cael eu cydnabod yn rhyngwladol ac a ddyfeisiwyd i amddiffyn hawliau pobl hŷn gan feddwl rhoi sylw i unrhyw fwch sy'n cael ei adnabod. Byddai'r ddeddfwriaeth hon yn creu dyletswyddau penodol ar gyfer cyrff cyhoeddus ac yn sicrhau eu bod yn mabwysiadu dull seiliedig ar hawliau o ddarparu gwasanaethau.

² [Flynn, Chwilio am atebolrwydd](#)

I symud ymlaen gyda'r gwaith hwn, rwyf wedi dod â grŵp o arbenigwyr at ei gilydd o'r sectorau cyhoeddus a chyfreithiol ac o'r trydydd sector, a phobl hŷn hefyd, i gefnogi fy ngwaith ac i benderfynu beth i'w gynnwys yn y ddeddfwriaeth arfaethedig a sut y bydd yn gweithio'n ymarferol. Cyflwynir canfyddiadau'r grŵp arbenigol hwn i Lywodraeth Cymru yn 2016.

Mae gwreiddio dyletswyddau seiliedig ar hawliau, a grymuso pobl hŷn i hawlio'r hawliau hynny, yn offeryn pwerus i chwynnu arferion gofal annerbyniol a gwreiddio arferion da fel eu bod yn dod yn rhai safonol.

Canlyniad 1: Rwy'n teimlo'n ddiogel a bod pobl yn gwrando arnaf, yn fy ngwerthfawrogi ac yn fy mharchu

Priodol iawn yn wir yw'r ffocws a roddwyd ar ddiogelu oedolion yn y sector cartrefi gofal ac mae hyn yn rhywbeth i'w groesawu. Er bod hyn yn gam pendant ymlaen, mae pobl hŷn yn dweud wrthyf fod arferion gofal gwael weithiau'n rhy araf i gael eu cywiro, bod gofal gwael yn cael ei oddef ac nad oes neb yn ôl pob golwg yn cael eu dal i gyfrif pan fydd pethau'n mynd o'i le. Rwyf felly wedi fy nghalonogi'n arbennig gan dri maes gwaith sy'n ceisio amddiffyn pobl hŷn yn fwy effeithiol rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso:

Yn ffit i fod yn berchen ar wasanaeth

Un o nodau allweddol y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol yw sicrhau dull mwy trylwyr o fod yn atebol am ofal gwael. Yn ogystal â'r rhai sy'n gweithio mewn gwasanaeth, rhaid i berchnogion cartrefi gofal hefyd fod yn atebol. Diben cynnwys prawf 'person addas a phriodol'³ ar wyneb y Bil yw sicrhau bod pobl sy'n darparu gwasanaethau a gafodd eu cau oherwydd gofal gwael iawn yn cael eu hatal rhag darparu gwasanaeth yn y dyfodol. Er y penderfynwyd peidio â chynnwys yn y Bil hwn y diwygiadau arfaethedig i sicrhau y byddai'r prawf 'person addas a phriodol' yn cael ei gymhwyso i bawb gydag awdurdod i roi gorchymyn mewn gwasanaeth, cefais fy sicrhau y bydd y prawf hwn hefyd yn cael ei gymhwyso i berchennog gwasanaeth, yn ogystal ag i'r Unigolyn Cofrestredig.

³ Adran 9, Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol

Cofrestru'r gweithlu gofal cymdeithasol

Roedd Gofyniad Gweithredu 5.7 yn fy Adolygiad o Gartrefi Gofal yn galw am gofrestru gweithwyr gofal preswyl er mwyn dod â chydaddoldeb i'r ffordd y diogelwn bobl agored i niwed. Mae cofrestru'r gweithlu, a'i gysylltiad i hyfforddiant gorfodol, yn hanfodol i sicrhau bod gan y bobl sy'n gweithio yn y sector y sgiliau iawn ac yn gwybod beth a ddisgwylir ohonynt, a bod pobl sy'n darparu gofal gwael yn cael eu heithrio o weithio yn y system. Roeddwn felly'n croesawu datganiad y Gweinidog i ymestyn cofrestru'r gweithlu i weithwyr gofal oedolion o 2020 ymlaen ac edrychaf ymlaen at dderbyn gwybodaeth am fanylion y cynlluniau i uwchsgilio a datblygu, yn y tymor byr, safonau yn y gweithlu sydd heb ei reoleiddio er mwyn rhoi sicrwydd pellach i mi (gweler hyfforddiant y gweithlu).

Deddfwriaeth ddiogelu newydd

Roedd gosod diogelu oedolion ar sylfaen statudol yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gam sylweddol a phwysig ymlaen, er y pryderon a leisiais am y diffiniad o ddiogelu yn y Ddeddf.

Fodd bynnag, er mwyn gwireddu ei photensial, mae'n hollbwysig bod y rheoliadau sy'n ategu'r Ddeddf a'r gweithredu cysylltiedig yn llwyr ddeall natur y cam-drin a wynebir gan bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal, ac yn enwedig yn llwyr ddeall maint ac effaith yr esgeulustod emosïynol a'i gydnabod fel math o gamdriniaeth. Mae hefyd yn greiddiol cydnabod, fel yr oedd Adolygiad Flynn a fy ngwaith achos fy hun fel Comisiynydd yn ei nodi'n glir, mai unigolyn yn byw gyda dementia na fedrant gael pobl i wrando arnynt sy'n aml y tu ôl i lawer o'r problemau sydd wrth wraidd adolygiadau achos diogelu a difrifol. Mae hyn yn amlygu rôl bwysig eiriolwyr annibynnol a phwysigrwydd dyletswyddau seiliedig ar hawliau, a bydd y ddau'n sicr o gryfhau diogelu yng Nghymru.

Fel gydag unrhyw bolisi neu ddeddfwriaeth, prawf ei lwyddiant yn y pen draw fydd i ba raddau y bydd yn cadw pobl yn ddiogel a'u hamddiffyn rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso. Byddaf felly'n parhau i gadw golwg agos

ar effaith y meysydd gwaith hyn, yn enwedig drwy gyhoeddi'r Canllawiau Statudol o dan Ran 7 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ac yn gweithio i sicrhau bod y Canllawiau ar Uwchgyfeirio Pryderon yn cael eu gwreiddio mewn is-ddeddfwriaeth o dan y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol.

Mynediad at eiriolwr annibynnol

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gwneud ymrwymiad penodol i alluogi pobl i wneud eu penderfyniadau ac i reoli eu bywydau eu hunain, ac i ddarparu'r cymorth i sicrhau bod lleisiau pobl yn gryf, clir a bod pobl yn gwrando ac yn gweithredu arnynt. Adlewyrchir hyn yn y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol sydd ar waith ar hyn o bryd. Fel rhan o ymateb Llywodraeth Cymru i'r nod hwn, mae'r Ddeddf yn cyflwyno hawl statudol i eiriolwr annibynnol. Er fy mod yn croesawu'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol yn gryf, mae gennyf bryderon gwirioneddol bod y Cod Ymarfer ar Eiriolaeth⁴ yn gosod rhwystrau sylweddol yn llwybr rhai unigolion - y byddai eiriolaeth yn hanfodol i sicrhau eu bod yn cael eu diogelu ac yn cael dewis a rheolaeth dros eu bywydau - i gael mynediad at eiriolwr annibynnol a chyflawni'r canlyniadau y mae ganddynt hawl i'w cael. Rwyf yn poeni'n enwedig y dylai fod gan bobl hŷn hawl i gael cynnig eiriolwr annibynnol pan fydd cartref gofal yn cau, pan fydd person yn symud o'r ysbyty i gartref gofal a phan fydd person mewn perygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso.

Ynghyd â'r mater o 'roi cynnig' i bobl hŷn, mae gennyf hefyd bryderon ynghylch argaeledd eiriolwyr annibynnol. Yn ôl yr ymatebion i fy Adolygiad gan Awdurdodau Lleol a darparwyr, ar hyn o bryd mae diffyg cysondeb o ran argaeledd eiriolwyr annibynnol. Er fy mod yn falch bod Awdurdodau Lleol wedi dangos ymrwymiad i ddarparu fy Ngofyniad Gweithredu, mae nifer o Awdurdodau Lleol a darparwyr yn nodi bod y ffaith na fedrant gael gafael ar eiriolwyr annibynnol yn rhwystr sylweddol.

⁴ Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Cod Ymarfer ar Eiriolaeth (Rhan 10 a meysydd cysylltiedig)

Er i'r ymatebion i fy Adolygiad nodi yr ymddengys bod eiriolwyr annibynnol yn cael eu cynnig yng nghyswllt diogelu, ni chynigir eiriolwr bob tro pan fydd cartref gofal yn cael ei gau neu wrth symud rhywun o'r ysbyty. Hefyd, roedd yr ymatebion yn nodi bod diffyg dealltwriaeth ymhlith rhai darparwyr o ran beth oedd manteision eiriolwyr annibynnol: dywedodd nifer o Reolwyr Cartrefi Gofal mai nhw yw'r bobl orau i eiriol yn annibynnol ar ran eu preswylwyr.

Bydd adolygu mynediad at, a'r defnydd a wneir o eiriolwyr annibynnol, yn parhau i fod yn faes diddordeb pwysig yn fy ngwaith.

Canlyniad 2: Gallaf gael y cymorth sydd ei angen a phan fo'i angen arnaf ac yn y ffordd yr wyf eisiau ei gael

Prif ffocws fy Adolygiad o Gartrefi Gofal oedd ansawdd bywyd, gan gynnwys sut y mae safon y gofal a mynediad at wasanaethau'n effeithio ar hyn. Yn ystod fy Adolygiad, dywedodd bobl hŷn wrthyf nad oes gan staff y sgiliau angenrheidiol i gwrdd â'u hanghenion yn aml a bod pwysigrwydd *sut* oedd pethau'n cael ei wneud yn cael ei ddiystyru'n rhy aml. Mae gormod o bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yn methu cael gafael ar gymorth a gwasanaethau sylfaenol.

Hyfforddiant staff gorfodol

Er bod cofrestru'r gweithlu'n cynnwys hyfforddiant gorfodol fydd yn cael ei ymestyn i'r gweithlu sydd heb ei reoleiddio o 2020 ymlaen, mae'n bwysig hefyd rhoi sylw i lefelau amrywiol yr hyfforddiant a ddarperir i'r gweithlu sydd ar hyn o bryd heb ei reoleiddio. Nid yw'r hyfforddiant gorfodol presennol i staff gofal, sydd ond yn cynnwys codi a chario, diogelwch tân ac iechyd a diogelwch, yn paratoi unigolion yn ddigonol i ddeall beth yw anghenion pobl hŷn ac i roi'r cymorth priodol iddynt. Hefyd, fel y mae fy Adolygiad o Gartrefi Gofal yn ei nodi, mae nifer sylweddol o staff gofal (tua 40% o'r gweithlu mae'n debyg⁵) yn darparu gofal hyd yn oed heb yr hyfforddiant mwyaf sylfaenol hwn.

Mewn ymateb i hyn, mae nifer o'r Gofynion Gweithredu yn fy Adolygiad o Gartrefi Gofal yn ymwneud â hyfforddi staff. Dywedodd yr ymateb wedi'i ddiweddarau gan Lywodraeth Cymru i fy Adolygiad, yn lle datblygu hyfforddiant newydd dros dro, ei bod yn bwriadu mapio'r hyfforddiant sydd eisoes yn bodoli a hefyd yn ystyried ymchwil a wnaed eisoes. Y bwriad yw rhoi sylw i'r amrywiadau yn ansawdd yr hyfforddiant ac yn y mynediad ato drwy gyflwyno fframwaith yn defnyddio dulliau seiliedig ar dystiolaeth ac fel y gellir cyfeirio pobl ymlaen at hyfforddiant priodol. Rwyf yn croesawu hyn oherwydd bydd yn helpu i sicrhau bod darparwyr yn gwybod ble i gael gafael ar hyfforddiant da fydd yn gyson â'r Fframwaith newydd sy'n cael ei ddatblygu gan Gyngor Gofal Cymru.

⁵ Tystiolaeth Cyngor Gofal Cymru ar gyfer Lle i'w Alw'n Gartref?

Hefyd, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi y bydd yn gweithio â'r Cyngor Gofal a Fforwm Gofal Cymru i benderfynu a ellid cytuno ar ganlyniadau ar gyfer hyfforddi'r gweithlu a fyddai'n safoni cymwysterau'n ymwneud â hyfforddiant dementia, mewn ymateb i Ofyniad Gweithredu 3.1.

Fodd bynnag, bydd cyflawni'r canlyniad lle bydd holl staff y cartrefi gofal yn deall anghenion corfforol ac emosiynol pobl hŷn sy'n byw gyda dementia ond yn digwydd drwy sicrhau bod Gofyniad Gweithredu 3.2, sy'n galw am hyfforddiant dementia gorfodol i holl staff y cartrefi gofal fel rhan o gynefino a bod rheolwyr cartrefi gofal yn derbyn hyfforddiant ychwanegol, yn cael ei weithredu'n llawn. Cefais felly fy nghalonogi o ddeall bod llawer o ddarparwyr eisoes yn ymateb i'r meysydd penodol yng nghyswllt hyfforddiant dementia a phencampwyr dementia, fel y nodir yng Ngofynion Gweithredu 3.2 am y naill beth a 5.5 am y llall.

Dementia ac eiddilwch

Ar hyn o bryd, mae'r gweithlu gofal cymdeithasol wedi'i arfogi'n wael i ddeall yr effaith y mae dementia'n ei gael ar bobl sy'n byw gyda'r cyflwr a'u teuluoedd. O ganlyniad, nid yw pobl hŷn yn derbyn y gofal a'r gefnogaeth sydd ei angen arnynt i gynnal eu lles corfforol, emosiynol a meddyliol. Nid yw hyn yn gwadu'r camau a gymrodd gyrff cyhoeddus, y trydydd sector a darparwyr annibynnol eisoes wrth ymateb i fy Ngofynion Gweithredu i sicrhau bod rôl hanfodol y gweithlu cartrefi gofal yn cael ei chydabod a'i gwerthfawrogi, bod yr holl staff sy'n gweithio mewn cartrefi gofal yn deall anghenion corfforol ac emosiynol pobl hŷn sy'n byw gyda dementia ac nad yw pobl mwyach yn gwneud tybiaethau ynghylch galluedd meddyliol.

Roedd Gofyniad Gweithredu 3.1 yn galw am raglen hyfforddiant genedlaethol fel bod staff yn gallu deall anghenion pobl sy'n byw gyda dementia'n well. Rwyf felly'n croesawu enghreifftiau cadarnhaol y gwaith hwn, sy'n cynnwys datblygu '*Fframwaith Dysgu a Datblygu*' gan Gyngor Gofal Cymru i helpu'r gweithlu i gefnogi pobl sy'n byw gyda dementia, a hefyd DVD ac adnoddau dysgu sy'n dangos yn glir pa mor bwysig yw'r iaith Gymraeg i unigolion sy'n byw gyda dementia ac effaith profiadau gofal da a drwg. Yn ogystal, rwyf yn croesawu datblygiad fframwaith tebyg fydd yn cael ei ddefnyddio mewn lleoliadau gofal iechyd a chefais fy sicrhau bod y

gwaith hwn yn symud ymlaen yn gydweithredol i sefydlu un fframwaith unigol.

Iechyd Corfforol

Un o ganfyddiadau'r Adolygiad oedd nad yw anghenion corfforol sylfaenol pobl hŷn yn cael eu cwrdd yn aml. Deuthum ar draws problemau sylweddol gydag iechyd y geg, nam ar y synhwyrâu a gofal ataliol, er enghraifft yng nghyswllt codymau. Mae'r rhain i gyd yn effeithio'n sylweddol ar ansawdd bywyd pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal.

Er enghraifft, effeithir ar un o bob tri o bobl hŷn gan ddiffyg maeth ar ôl mynd i gartref gofal ac os na reolir eu diet yn iawn, gall y canlyniadau clinigol gynnwys ymateb imiwnedd diffygiol, cyhyrau'n gwanychu, briwiau'n cymryd mwy o amser i wella, amhariad seico-gymdeithasol ac adferiad araf yn dilyn llawdriniaeth. Mae cyhoeddiadau diweddar^{6,7,8} hefyd wedi dangos fod preswylwyr cartrefi gofal bum gwaith yn fwy tebygol o ddiodef o ddiffyg hylif nag unigolion sy'n byw yn y gymuned gyda'r risg yn uwch i rai sy'n byw gyda dementia.

Rwyf yn croesawu bwriad Llywodraeth Cymru i sicrhau y rhoddir ffocws parhaus ar wella iechyd corfforol a lles meddwl pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal, ac edrychaf ymlaen at gael fy niweddarau ar y cynnydd sy'n cael ei wneud yn y meysydd canlynol: y cynllun cenedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol, yr adolygiad o wasanaethau Meddygon Teulu estynedig a'r asesiadau holistig newydd o iechyd corfforol a meddyliol y bydd angen eu cyflawni o fewn 28 diwrnod i dderbyn preswylwyr mewn cartref gofal.

Rwyf hefyd yn croesawu'r ymrwymiad Gweinidogol i gynnwys safonau gofal ar gyfer gofal corfforol integredig a chydgyssylltiedig, gan gynnwys diffygion synhwyradd, iechyd y geg, diet llesol, ymarfer corff, iechyd

⁶ Wilson (2014) [Hydration](#) and Older People in the UK: Addressing the Problem, Understanding the Solutions, ar ran y *Parliamentary Hydration Forum*

⁷ <http://www.bbc.co.uk/news/health-30312621>

⁸ <http://www.newsguardian.co.uk/news/health/study-finds-care-home-residents-more-likely-to-be-dehydrated-1-7056394>

meddwl, cyswllt cymdeithasol a gofal ataliol, yn y rheoliadau newydd fydd yn ategu'r Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol.

Pryder arall y tynnodd fy Adolygiad o Gartrefi Gofal ac Adolygiad Flynn sylw ato oedd y defnydd amhriodol o gyffuriau gwrthseicotig i reoli symptomau ymddygiad a seicolegol mewn pobl sy'n byw gyda dementia, sy'n achos clir o dorri Canllawiau NICE. Rwyf felly'n croesawu'r ffaith fod y byrddau iechyd i gyd wedi cytuno i gyhoeddi gwybodaeth am ddefnyddio cyffuriau gwrthseicotig mewn cartrefi gofal yng Nghymru fel rhan o ymateb i Ofyniad Gweithredu 3.5. Bydd hyn yn darparu ffynhonnell ddata nad oedd ar gael o'r blaen ac yn nodi faint o ddefnydd a wneir o gyffuriau gwrthseicotig mewn cartrefi gofal, sy'n hanfodol i gefnogi'r gwaith o newid a gwella bywydau pobl hŷn.

Mynediad at ofal iechyd

Roedd fy Adolygiad o Gartrefi Gofal yn nodi, o ran mynediad at y gofal iechyd mwyaf sylfaenol fel Meddyg Teulu, gofal deintyddol, dietegydd, profion sgrinio nam ar y synhwyrâu a gwasanaethau ailalluogi er mwyn cynnal a gwella lles corfforol, emosiynol a meddyliol unigolyn, y dylid trin symud i gartref gofal fel dim mwy na newid cyfeiriad. Fodd bynnag, mae mynediad at ofal iechyd yn sylfaenol anghyfartal i nifer helaeth o breswylwyr cartrefi gofal ac yn cael effaith ddofn ar ansawdd eu bywydau.

Rwyf wedi cynnwys nifer o Ofynion Gweithredu yng nghyswllt hyn ac yn croesawu'n arbennig yr ymrwymiad a wneir gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu 'Datganiad Hawliau Cenedlaethol' i'w gynnwys mewn cartrefi gofal mewn ymateb i Ofyniad Gweithredu 4.1. Bydd hyn yn rhoi dull clir i ddarparwyr, aelodau o'r teulu a phobl hŷn i herio unrhyw wasanaeth anghyfartal ac yn cadarnhau ei bod dal yn ofynnol i'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol gwrdd â'u hanghenion lle bynnag y mae eu cartref ar y pryd. Bydd y 'Datganiad Hawliau Cenedlaethol' yn cael ei gynnwys yn y Pecyn Croeso a roddir i breswylwyr newydd gan bob cartref gofal (mae Gofyniad Gweithredu 1.2 yn nodi bod angen i bob cartref gofal roi Pecyn Croeso i'w breswylwyr).

Rwyf yn falch bod y Byrddau Iechyd, wrth ymateb i fy Adolygiad, wedi fy sicrhau'n wirioneddol y bydd Gofyniad Gweithredu 3.4, sy'n galw am ddarparu cymorth lles ac iechyd meddwl arbenigol amlddisgyblaethol 'mewnol' i bob person hŷn mewn cartref gofal, yn cael ei gwrdd. Mae'r enghreifftiau isod yn dangos yn glir pa mor ddifrifol y cymrodd bob un o'r Byrddau Iechyd y Gofyniad Gweithredu hwn:

- Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf wedi ymrwmo i gyhoeddi adroddiad blynyddol gan y Tîm Cymorth Iechyd Meddwl a sefydlwyd yn ddiweddar (ac a ddyfeisiwyd i gefnogi a gwella gwybodaeth a sgiliau staff y cartrefi gofal). Bydd yr adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth am gynnydd y gwasanaeth, yr anghenion datblygu i'r dyfodol, am astudiaethau achos a hefyd gwybodaeth am ansawdd y gwasanaethau hyn i unigolion sy'n byw gyda dementia mewn cartrefi gofal.
- Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg wedi ymrwmo i weithio â Meddygon Teulu i adolygu nifer y cleifion y rhagnodir cyffuriau gwrthseicotig iddynt.
- Mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan fferyllydd dynodedig ar gyfer ei gartrefi gofal a hefyd wedi ymrwmo i adolygu ei wasanaethau iechyd meddwl mewnol a gweithredu i wella gwasanaethau lle credir bod angen.

Canlyniad 3: Gallaf wneud y pethau sy'n bwysig imi

Mae angen i gysyniad syml gael ei hawlio o'r newydd ar draws gofal preswyl: nid mater o fod yn ddiogel neu o gwrdd ag anghenion corfforol ydy o, er bod y pethau hyn hefyd yn hanfodol, ond mater o fwynhau'r ansawdd bywyd gorau, sut bynnag y diffinnir hynny gan berson hŷn unigol. Rhaid i'r gallu i wneud y pethau sy'n bwysig iddynt a chael eu trin mewn ffordd sy'n ymgorffori trugaredd, cyfeillgarwch a charedigrwydd fod wrth galon ein system newydd a chael eu mynnu fel hawliau drwyddi.

Dull seiliedig ar hawliau

Rwyf wedi dweud droeon drwy gydol craffu cyn y broses ddeddfu fod yn rhaid i'r Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gwasanaethau Cymdeithasol fod amdan bobl ac mae felly'n bwysig bod gwybodaeth ar gael am sut y cynhelir hawliau pobl hŷn. Mae cyrff cyhoeddus ac unigolion sy'n gweithredu ar eu rhan yn allweddol i sicrhau y troir hawliau pobl yn bethau real. Rwyf yn croesawu'r ffaith bod AGGCC yn datblygu fframwaith **seiliedig ar hawliau dynol** i eistedd ochr yn ochr â'u fframwaith arolygu, er mwyn gwreiddio dull seiliedig ar hawliau dynol o fewn eu gwaith a gosod meincnod ar gyfer gofal annerbyniol. Rwyf hefyd yn croesawu'r ddyletswydd fydd gan AGGCC i adrodd yn erbyn Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn o dan Adran 42 y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol.

Safonau rheoleiddio newydd

Rhaid i bwysigrwydd ymateb i eiddilwch emosiynol, i gefnogi hunaniaeth unigolion a sicrhau bod gofal a chymorth da, urddasol a pharchus yn cael ei ddarparu'n gyson mewn cartrefi gofal, fod wrth galon y safonau rheoleiddio newydd ar gyfer darparwyr annibynnol os ydym i wneud gwahaniaeth i fywydau pobl hŷn sy'n byw mewn gofal preswyl.

Mynnais fod y diffiniad o ofal yn y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol yn hen ffasiwn ac yn canolbwyntio ar ddull seiliedig ar dasgau. Fodd bynnag, derbyniais sicrwydd y bydd y **Diffiniad o Ofal** o dan Adran 3 y Bil yn baramedr i sicrhau na fydd gwasanaethau'n disgyn yn anfwriadol o fewn y gyfundrefn reoleiddio, yn hytrach na chyfeirio at safon y gofal. Yn hytrach, bydd y rheoliadau o dan Adran 27 y Bil yn nodi ansawdd bywyd a safon y gofal a hefyd yn rhagnodi manyleb y gwasanaethau.

Mae'n hanfodol bod y **Rheoliadau ar Wasanaethau Rheoledig** yn gwreiddio ansawdd bywyd fel safon sy'n rhaid i wasanaethau ei bodloni a bod hynny'n ychwanegol at ansawdd y gofal. Rhaid i'r rheoliadau nodi safonau ansawdd clir y gall AGGCC arolygu yn eu herbyn, i sicrhau bod cartref gofal yn lle gydag arwyddocâd ac ymdeimlad o berthyn a bod unrhyw risg o 'sefydliadu', a nodweddir yn aml gan ddefnydd amhriodol o

gyffuriau gwrthseicotig a methiant i adnabod esgeulustod emosiynol o bobl hŷn, yn cael ei dileu. Mae'r rheoliadau hyn yn ganolog i'r Bil hwn ac rwyf eisoes wedi lleisio pryder nad ydynt eto wedi dod i'r golwg. Edrychaf ymlaen at weithio â Llywodraeth Cymru i oleuo'r gwaith o ddatblygu'r rheoliadau hyn.

Canlyniad 4: Rwyf yn byw mewn lle addas i mi a fy mywyd

Nid yw'r un esgid yn ffitio pawb, hyd yn oed mewn cartrefi gofal da. Efallai na fydd cartref sy'n addas i fywyd un unigolyn yn addas i rywun arall.

Mae'n anodd iawn i bobl hŷn farnu ansawdd y gofal a'r cymorth a roddir neu a gynllunnir ar eu cyfer oherwydd diffyg gwybodaeth ddealladwy, ystyrllon a hygyrch ac am eu bod yn rhoi eu ffydd yn y system gan feddwl, pa bynnag gartref gofal a ddewisant, y byddant yn ddiogel ac yn derbyn gofal da. Gall deimlo'n aml fel mordwyo drwy labyrinth o wahanol adroddiadau sy'n gallu bod yn niwlog ac anghyson, sy'n ei gwneud yn anodd i unigolion wneud penderfyniadau sy'n briodol iddynt a chodi pryderon a chwynion.

Sicrhau proses arolygu drylwyr

Rwyf wedi casglu o'r sgysiau a gefais â phobl hŷn ac o'r cymorth achosion a roddaf fod gormod o brofiadau negyddol o wasanaethau iechyd, yn y bôn, oherwydd bod angen system **iechyd a gofal cymdeithasol fwy integredig** arnom. Roedd Gofyniad Gweithredu 6.4 yn galw am system integredig o arolygu iechyd a gofal cymdeithasol i ddarparu craffu effeithiol o'r ansawdd bywyd a'r gofal iechyd a roddir i bobl hŷn mewn cartrefi preswyl a nyrsio. Byddaf felly'n parhau i ddilyn cynnydd Papur Gwyrdd y GIG ar Gynnal Ansawdd wrth iddo gael ei ddatblygu i wneud yn siŵr fod y broses arolygu, beth bynnag yw strwythur y cyrff rheoleiddio, yn sicrhau bod pob agwedd ar gartrefi gofal yn addas i'r pwrpas.

Rwyf yn croesawu'r ffaith bod AGGCC yn datblygu **fframwaith seiliedig ar hawliau dynol** i eistedd ochr yn ochr â'u fframwaith arolygu, er mwyn gwreiddio dull seiliedig ar hawliau dynol o fewn eu gwaith a gosod meincnod ar gyfer gofal annerbyniol. Roedd Gofyniad Gweithredu 1.5 yn

fy Adolygiad o Gartrefi Gofal yn galw am ddatblygu rhestr benodol o ‘fyth-ddigwyddiadau’ i nodi'n glir pa arferion sy'n rhaid rhoi'r gorau iddynt ar unwaith. Rwyf felly'n falch y bydd AGGCC yn symud ymlaen ar hyn drwy sicrhau y bydd hawliau dynol yn elfen sylfaenol o'u cyfundrefn arolygu yn y dyfodol a lle caiff gofal annerbyniol ei adnabod y bydd yn “sbarduno camau gorfodi”⁹.

Roedd Gofyniad Gweithredu 6.3 yn fy Adolygiad o Gartrefi Gofal yn galw am wneud defnydd parhaus o **aseswyr lleyg**, fel rhan ffurfiol ac arwyddocaol o'r broses arolygu. Er bod Adran 41 y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol yn cynnwys dyletswydd gyffredinol i gynnwys y cyhoedd yn y broses arolygu, nid yw'n cwrdd yn ddigonol â fy nisgwyliad bod gan ddinasyddion rôl wirioneddol ac ystyrlon yn y broses arolygu. Er fy mod yn croesawu sefydlu Bwrdd Cyngori Cenedlaethol a Byrddau Cyngori Rhanbarthol AGGCC i graffu ar lefel strategol, nid yw hyn yr un peth o gwbl â'r wybodaeth y gellid ei chasglu gan aseswyr lleyg am brofiadau gwirioneddol a byw'r bobl sy'n byw mewn cartrefi gofal yng Nghymru.

Roedd Gofyniad Gweithredu 6.9 yn rhestru nifer o feysydd yr oeddwn am weld adrodd arnynt yn Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygydd. Rwyf yn croesawu'r ffaith bod yn rhaid i **Adroddiad Blynyddol AGGCC** adrodd yn erbyn lles pobl sy'n defnyddio gwasanaethau rheoledig, yn ogystal â'r ddyletswydd i adrodd yn erbyn Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn. Er bod Adran 42 y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol yn darparu ar gyfer cynnwys gwybodaeth arall yn yr adroddiad, oherwydd nad oes rheoliadau o dan yr Adran hon, ni allaf fod yn sicr y gweithredir fy Ngofyniad Gweithredu'n llawn ar hyn o bryd. Fodd bynnag rwyf yn falch y bydd y rheoliadau o dan Adran 56 y Bil, fydd yn rhagnodi beth i'w gynnwys yn **Adroddiadau Blynyddol yr Awdurdodau Lleol**, yn awr yn destun y weithdrefn gadarnhaol. Mae Gofyniad Gweithredu 6.7 yn fy Adolygiad yn nodi pa wybodaeth yr wyf am i Awdurdodau Lleol adrodd arni ac edrychaf ymlaen at weithio â Llywodraeth Cymru i symud ymlaen ar hyn.

⁹ Tystiolaeth AGGCC ar gyfer Lle i'w Alw'n Gartref?, Gweler Atodiad C os gwelwch yn dda.

Mae darparwyr wedi dweud yn glir wrthyf na fedrant gael gafael, yn rhy aml, ar y cymorth sydd ei angen arnynt i symud i ffwrdd o sefyllfa lle cyflwynir risg neu lle darperir gofal annerbyniol. Mae llawer o gomisiynwyr yn buddsoddi adnoddau helaeth mewn ceisio cynnal cartrefi sy'n 'methu'. Mae felly'n hollbwysig bod cymorth ymarferol yn ei le sydd ar gael yn hwylus i drawsnewid cartrefi sy'n methu cyn i bethau waethygu. Roedd Gofyniad Gweithredu 5.6 yn fy Adolygiad yn galw am **Wasanaeth Gwella Cenedlaethol** i roi cymorth ac arweiniad arbenigol i ddarparwyr a chomisiynwyr er mwyn gwella safonau mewn cartrefi gofal yng Nghymru, gwaith a ddechreuodd Lywodraeth Cymru eisoes drwy sefydlu'r Grŵp Llywio Cartrefi Gofal. Rwyf felly'n croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i weithio â rhanddeiliaid allweddol ac â minnau i drafod mwy ar gyflwyno dull cenedlaethol mewn ymateb i'r Gofyniad hwn.

Yn ogystal â phroses arolygu drylwyr sy'n rhoi ansawdd bywyd wrth ei chalon, mae'n bwysig i gartrefi gofal gyfathrebu'n effeithiol ynghylch y gwasanaeth a ddarperir, yn ogystal â'r hyn sydd yn eu hadroddiadau arolygu. Rwyf felly'n falch y bydd y rheoliadau fydd yn rhagnodi beth y dylai darparwyr ei gynnwys yn eu **Ffurflenni Blynyddol** o dan Adran 10 y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol, yn awr yn destun y weithdrefn gadarnhaol. Mae Gofyniad Gweithredu 6.10 yn fy Adolygiad yn disgrifio'r wybodaeth yr wyf am i ddarparwyr adrodd arni i sicrhau bod yr adroddiadau hyn yn rhoi'r holl wybodaeth sydd ei hangen ar bobl hŷn.

Edrychaf ymlaen at weithio â Llywodraeth Cymru i wneud yn siŵr yr adlewyrchir fy Ngofyniad Gweithredu ac i sicrhau bod y rheoleiddiwr yn rhoi barn am gywirdeb y ffurflen flynyddol. Heb hyn ni fydd yn bosibl herio'r drosedd dditiadwy newydd o ddisgrifiadau ffug neu ddatganiadau ffug. Rwyf yn falch y bwriedir sefydlu grŵp technegol i edrych ar y mater hwn yn fuan yn y Flwyddyn Newydd ac y bwriedir fy ngwahodd i gyfrannu at y gwaith hwn.

Comisiynu i ddarparu ansawdd bywyd

Gwneuthum y pwynt droeon ynghylch pa mor greiddiol yw comisiynu. Dylai ansawdd bywyd ac ansawdd y gofal a roddir i bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yng Nghymru felly fod wrth galon y broses gomisiynu ac yn flaenllaw ym mhob penderfyniad comisiynu. Ni ddylai cost, yn enwedig lle mae pris yn codi cwestiynau am allu'r darparwr i gwrdd ag anghenion gofal a chymorth unigolion, byth fod yn brif ystyriaeth wrth ddewis cartref newydd

ar gyfer unigolyn. Ni chredaf eto fod y newidiadau sydd angen eu gwneud i gomisiynu'n adlewyrchu digon o fewn nac ar draws y newid system sy'n digwydd.

Roedd Gofyniad Gweithredu 6.1 yn fy Adolygiad yn galw am ddefnyddio un fframwaith canlyniadau wrth gomisiynu, rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau ac rwyf felly'n croesawu'r gofyniad yn y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol bod Awdurdodau Lleol yn adrodd ar i ba raddau y gwnaethant weithredu i ddarparu'r canlyniadau lles a ddisgrifir gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Fodd bynnag, mae'r rhain yn lefel uchel ac nid ydynt yn darparu'r fframwaith cyson sydd ei angen. Mae hyn o bryder neilltuol o ystyried bod ansawdd bywyd, mewn rhai rhannau o Gymru, yn dechrau cael ei wreiddio fel rhan o gomisiynu.

Er enghraifft, o ganlyniad i'w fframwaith comisiynu ansawdd bywyd, mae Cyngor Sir y Fflint wedi datblygu Cynllun Gweithredu, "*Lle i'w Alw'n Gartref – Rhaglen Newid*", gyda'r bwriad o ysgogi cyswllt cymdeithasol a chyfathrebu mewn cartrefi gofal, hyrwyddo cyswllt ystyrion rhwng gofalwyr a phreswylwyr a hynny'n seiliedig ar brofiadau cyffredin sy'n gwneud i bobl chwerthin a dysgu gyda'i gilydd. Bydd y fenter hon, sy'n canolbwyntio'n arbennig ar ddeall anghenion pobl sy'n byw gyda dementia, yn helpu gofalwyr cyflogedig i weld y tu hwnt i'r preswylwr a'u gweld fel rhywun i ofalu amdanynt ac fel unigolion gyda theimladau, diddordebau a hunaniaeth...

Rwyf yn disgwyl i Lywodraeth Cymru nodi gwersi o'r fframwaith comisiynu sydd y tu ôl i hyn er mwyn goleuo'r safonau rheoleiddio newydd o dan Adran 27 y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol fel bod gan Gymru un safon ansawdd ddiffiniol, yn unol â Gofyniad Gweithredu 6.1.

Bydd cyflwyniad y **Cyflog Byw Cenedlaethol** yn cyflwyno sialensau ariannol pellach i gomisiynwyr. Roedd Gofyniad Gweithredu 5.8 yn fy Adolygiad yn galw am wneud dadansoddiad cost a budd o delerau ac amodau staff gofal mewn cartrefi gofal. Rwyf felly'n croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn datblygu asesiad o'r effaith y bydd y Cyflog Byw Cenedlaethol yn ei chael ar y sector, gan ddisgwyl ei gyhoeddi

yn 2016. Rwyf yn disgwyl y bydd hyn yn creu tystiolaeth ar gyfer datblygu cynigion polisi i wella recriwtio a chadw staff mewn cartrefi gofal, ac yn cydfynd â'r gwaith a gomisiynwyd eisoes gan Lywodraeth Cymru i ddeall a gwella recriwtio a chadw staff yn y sector gofal cartref.

Mae **cynllunio'r gweithlu** yn effeithiol hefyd yn hanfodol os am ddarparu gofal o ansawdd uchel sy'n rhoi'r ansawdd bywyd gorau i bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal. Mae gallu recriwtio a chadw staff arbenigol, yn enwedig Nyrsys Iechyd Meddwl Cofrestredig a Rheolwyr Cartrefi Gofal, yn rhwystr sylweddol yn y sector. Roedd Gofyniad Gweithredu 7.2 yn fy Adolygiad yn galw am ragolygon cynllunio gweithlu'r GIG i gynnwys bod angen nyrsys mewn cartrefi gofal. Er fy mod yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddefnyddio'r Cynlluniau Tymor Canolig Integredig i gynllunio ar gyfer anghenion staffio GIG Cymru yn y dyfodol, ac ar gyfer y Sector Annibynnol o fis Hydref 2015 ymlaen, bydd angen ffocws ar y sector cyfan i sicrhau bod dull integredig o gynllunio, recriwtio a chadw staff mewn cartrefi gofal yn cael ei wreiddio ar draws pob Bwrdd Iechyd yn wyneb y prinder staffio yn y GIG. Am y rheswm hwn rwyf yn croesawu sefydlu Ffrwd Waith Gweithlu'r Grŵp Llywio Cartrefi Gofal fydd yn ceisio cyflawni ei raglen waith erbyn Tachwedd 2016. Heb y gweithlu iawn yn ei le – y nifer iawn o staff, gyda'r sgiliau iawn ac yn lle iawn – bydd gwasanaethau cartrefi gofal yn parhau i fod yn ansefydlog ac yn methu â chwrdd ag anghenion pobl hŷn, heddiw ac yn y dyfodol. Byddaf yn parhau i gefnogi'r gwaith hwn ond hefyd yn monitro'n fanwl pa mor effeithlon ydyw (gweler hefyd y sylfaen darparwyr / marchnad isod).

Pwysigrwydd y sylfaen darparwyr / marchnad

Roedd fy Adolygiad o Gartrefi Gofal yn nodi'n glir bod y diffyg trosolwg strategol i sicrhau lle priodol mewn cartrefi gofal yn cael effaith negyddol ar y gofal a roddir i bobl hŷn mewn gofal preswyl. Ar y gorau, mae'r diffyg capasiti yn y sector yn cyfyngu ar y dewis sydd ar gael fel bod yn rhaid i bobl symud i ffwrdd o'u teuluoedd neu fyw mewn cartref gofal nad yw'n gwbl addas ar gyfer eu hanghenion. Ar y gwaethaf, mae'r diffyg darpariaeth cartrefi gofal yn arwain at achosion lle mae cartrefi gofal sy'n darparu gofal gwael yn aros ar agor oherwydd nad oes unlle arall ar gael i'r preswylwyr.

Mae darpariaethau yn y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol, ynghyd â'r Ffrwd Waith i Ddadansoddi'r Farchnad dan arweiniad Llywodraeth Cymru, yn cynnig rhywfaint o sicrwydd y rhoddir sylw i'r angen i sicrhau sylfaen briodol o ddarparwyr. Mae'n hanfodol bod y ddau faes gwaith yma'n adlewyrchu'r manylion yng Ngofyniad Gweithredu 7.1 yn fy Adolygiad a bod cynllun gweithredu i sicrhau bod y galw'n cael ei ateb, heddiw ac i'r dyfodol. Mae'r Gofyniad yn nodi'r wybodaeth sydd angen ei chynnwys mewn unrhyw gynlluniau yn y dyfodol i sicrhau cyflenwad o gartrefi gofal da. Roeddwn felly'n croesawu cynnwys y gofyniad bod Gweinidogion Cymru'n ymgynghori cyn drafftio rheoliadau o dan Adran 53 y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol ac edrychaf ymlaen at weithio â'r swyddogion ar y mater hwn. Ond hefyd, ac er mwyn i newid ddigwydd, rhaid i Weinidogion Cymru wneud datganiad ynghylch pryd a sut y byddant yn cwrdd ag unrhyw argymhellion yn yr **Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad Genedlaethol.**

Casgliad

Mae'n glir bod newidiadau sylweddol ar y gweill a champau'n cael eu cymryd yng Nghymru i geisio creu system cartrefi gofal fwy pwrpasol a chydgyssylltiedig. Mae llawer o'r "glo mân" fydd yn gwneud y cyfleoedd a gyflwynir gan y dulliau a'r dyfeisiau strwythurol newydd hyn yn real i bobl hŷn eto i'w datblygu. Mae'n bwysig parhau i graffu'r rhain fel bod eu potensial yn cael ei gyflawni.

Bydd yn cymryd amser, efallai degawd, i'r gwaith sydd ar y gweill ddarparu'r newid sydd ei angen a chael yr effaith y byddaf yn disgwyl ei gweld ar fywydau pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yng Nghymru. Yn y cyfamser, ni ddylen ni golli golwg ar y bobl sy'n byw yn ein cartrefi gofal heddiw ac sy'n profi ansawdd bywyd annerbyniol. Rwyf wedi fy nghalonogi gan yr arferion da cynyddol a welais a chan y gwaith cynnar sydd wedi'i wneud cyn cyflwyno'r fframweithiau deddfwriaethol a systemau newydd, ond poeni'r wyf nad ydym yn gwneud digon eto i gyflwyno a chefnogi comisiynwyr a darparwyr gwasanaeth i droi'r arferion da hyn yn arferion safonol.

Yn y pen draw, mater o effaith ydyw. Mater o sicrhau bod pobl hŷn yn teimlo'n ddiogel, bod pobl yn gwrando arnynt, yn eu gwerthfawrogi a'u

parchu, y medrant wneud y pethau sy'n bwysig iddynt, byw mewn lle sy'n addas iddyn nhw a'u hanghenion a gallu cael gafael ar y cymorth sydd ei angen arnynt, pan fo'i angen ac yn y ffordd sydd ei angen arnynt.

Dyna pam y byddwn yn cyflawni Adolygiad Dilynol ymhen 18 mis i edrych ar y cynnydd a wnaed mewn meysydd penodol. Bydd hyn yn cynnwys chwilio am dystiolaeth o effaith y gweithredu, yn sgîl fy Adolygiad a'r Gofynion Gweithredu, ar fywydau pobl hÿn.

Diwedd

Atodiad A - Datganiad y Comisiynydd ar yr Adolygiad Cartrefi Gofal (Cyhoeddwyd 11 Awst 2015)

Ym mis Tachwedd 2014 cyhoeddais 'Lle i'w Alw'n Gartref?', sef canfyddiadau fy Adolygiad a barodd flwyddyn o ansawdd bywyd a'r gofal a roddir i bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yng Nghymru.

Er y gwelais enghreifftiau o ofal a chymorth gwyb yn cael ei ddarparu ar draws Cymru, a phobl hŷn yn byw mewn cartrefi oedd yn sicr yn ateb y disgrifiad o gartref, deuthum hefyd ar draws gormod o lawer o bobl hŷn gydag ansawdd bywyd annerbyniol.

Ynghyd â chyhoeddi adroddiad ar fy Adolygiad, ysgrifennais felly at bob Awdurdod Lleol a Bwrdd Iechyd ac at AGGCC, Llywodraeth Cymru, Cyngor Gofal Cymru a phob darparwr cartrefi gofal yn nodi'r camau yr oeddwn yn disgwyl iddynt eu cymryd i sicrhau bod y gofal a'r cymorth gorau y deuthum ar ei draws yn dod yn safonol ar draws Cymru. Cefais ymateb gan bob un o'r cyrff hyn yn nodi'r camau y byddent yn eu cymryd i ddarparu'r canlyniadau yr oedd fy Adolygiad yn canolbwyntio arnynt.

Drwy'r datganiad hwn rwyf heddiw'n cyhoeddi fy nadansoddiad, ar sail y dystiolaeth a roddwyd i mi, a hefyd fy asesiad ynghylch a fydd y cyrff sy'n destun fy Adolygiad yn darparu'r gweithredu sydd wedi'i ddyrannu iddynt.

Rwyf wrthi'n dadansoddi'r ymatebion a gefais gan ddarparwyr cartrefi gofal gan fwriadu gwneud datganiad ym mis Tachwedd yn rhoi trosolwg ar yr ymatebion hyn, un flwyddyn ymlaen o gyhoeddi'r Adroddiad ar fy Adolygiad.

Ar draws Cymru roedd cyrff yn cydnabod bod yr adroddiad ar fy Adolygiad yn cyfleu darlun cywir o fywyd mewn cartrefi gofal yng Nghymru heddiw. Er bod fy adroddiad yn ddarllen digon anodd, cafodd ei groesawu gan yr holl gyrff oedd yn destun yr adroddiad a rhoesant ymrwymiad i sicrhau y darperir y canlyniadau a'r newidiadau yr oeddwn yn galw amdanynt.

Ymatebion

Roedd pob corff oedd yn destun fy Adolygiad wedi ymateb i Ofynion Gweithredu penodol. Wrth ddadansoddi eu hymatebion, chwiliodd fy nhîm am dystiolaeth y byddai'r canlyniadau a ddisgrifiwyd yn y Gofynion hynny'n cael eu darparu.

Awdurdodau Lleol

Cyflwynodd Awdurdodau Lleol wybodaeth glir a roddodd ddigon o sicrwydd imi eu bod yn ymrwymedig i gwrdd â fy Ngofynion Gweithredu ac i ddarparu'r canlyniadau sydd mewn golwg erbyn y terfynau amser. Sgoriwyd y rhan fwyaf o'r ymatebion i bob Gofyniad Gweithredu fel rhai derbyniol, heb unrhyw ymateb yn cael ei sgorio'n annerbyniol. Cadarnhaol hefyd yw nodi bod sawl Awdurdod Lleol wedi cyflwyno ymateb ar y cyd yn nodi sut y byddant yn gweithio mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd eraill i ddarparu'r canlyniadau sydd mewn golwg.

Roedd ymatebion i nifer o'r Gofynion Gweithredu (RfA) yn arbennig o gadarnhaol:

RfA 1.6 – Eiriolaeth Annibynnol – bydd gan bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal sy'n cau, a phobl hŷn sydd mewn perygl neu sydd eisoes yn cael eu cam-drin, fynediad at eiriolwr annibynnol neu heb ei gyfarwyddo.

RfA 3.3 – Cyfeillio – cefnogir pobl hŷn i gadw eu cyfeillion presennol ac i gael cyswllt cymdeithasol a / neu ddiwylliannol ystyrion, oddi mewn a'r tu allan i'r cartref gofal.

RfA 6.7 – Datganiadau Ansawdd Blynyddol – bydd gan bobl hŷn fynediad at wybodaeth ystyrion a pherthnasol am yr ansawdd bywyd a'r gofal a ddarperir gan neu mewn cartref gofal unigol, sy'n hanfodol i greu system fwy agored a thryloyw.

Mewn nifer fach o achosion, sgoriwyd yr ymatebion fel rhai rhannol, yn benodol yng nghyswllt hyfforddiant dementia (RfA 3.2) a defnyddio adborth gan bobl hŷn i yrru gwelliannau parhaus (RfA 6.2). Rhoddwyd adborth felly sy'n cynnig arweiniad pellach ar sut y gallai Awdurdodau Lleol ddarparu'r canlyniadau sydd mewn golwg.

Byrddau Iechyd

Mae'r Byrddau Iechyd wedi dangos ymrwymiad diffuant i ddarparu gwasanaethau'n well, gan greu cynlluniau newid sydd wedi rhoi digon o sicrwydd imi y byddant yn cwrdd â fy Ngofynion Gweithredu ac yn darparu'r canlyniadau sydd mewn golwg.

Sgoriwyd y rhan fwyaf o'r ymatebion i bob Gofyniad Gweithredu fel rhai derbyniol, heb unrhyw ymateb yn cael ei sgorio'n annerbyniol. Cadarnhaol hefyd yw nodi bod sawl Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno ymateb ar y cyd yn nodi sut y byddant yn gweithio mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol yn eu hardal i ddarparu'r canlyniadau sydd mewn golwg.

Roedd yr ymatebion i nifer o'r Gofynion Gweithredu (RfA) yn arbennig o gadarnhaol:

RfA 1.3 – Cymorth Anymatal Arbenigol mewn Cartrefi Gofal – bydd pobl hŷn yn cael eu cynorthwyo'n well i ofalu am eu hanghenion ymatal ac i ddefnyddio'r toiled yn annibynnol a darperir preifatrwydd, urddas a pharch iddynt bob amser.

RfA 3.5 - Gwybodaeth am Ddefnyddio Cyffuriau Gwrthseicotig - cyhoeddir gwybodaeth yn flynyddol am ddefnyddio cyffuriau gwrthseicotig mewn cartrefi gofal, i'w defnyddio i sicrhau nad yw cyffuriau gwrthseicotig yn cael eu rhagnodi'n amhriodol i bobl.

RfA 4.3 – Deall Anghenion Iechyd – bydd staff gofal yn deall anghenion iechyd pobl hŷn a phryd a sut i ddefnyddio gwasanaethau gofal sylfaenol ac arbenigol.

Mewn nifer o achosion, sgoriwyd yr ymatebion fel rhai rhannol, yn benodol yng nghyswllt adolygiadau meddyginiaeth (RfA 4.4), defnyddio adborth gan bobl hŷn i yrru gwelliannau parhaus (RfA 6.2) a datblygu llwybr gyrfu nyrsio mewn cartrefi gofal (RfA 7.3). Rhoddwyd adborth felly sy'n cynnig

arweiniad pellach ar sut y gallai'r Byrddau Iechyd ddarparu'r canlyniadau sydd mewn golwg.

Cyngor Gofal Cymru

Mae Cyngor Gofal Cymru wedi rhoi sicrwydd rhannol i mi y byddant yn cwrdd â fy Ngofynion Gweithredu ac yn darparu'r canlyniadau sydd mewn golwg erbyn y terfynau amser oherwydd sgoriwyd eu hymatebion naill ai fel derbyniol neu rannol. Ni sgoriwyd yr un ymateb fel un annerbyniol.

O'r pedwar Gofyniad Gweithredu yr oedd y Cyngor Gofal yn destun iddynt, sgoriwyd dau fel derbyniol:

RfA 5.4 – rhaglen gynefino a hyfforddiant parhaus orfodol ar gyfer staff gofal – bydd cynefino a hyfforddiant gwell yn sicrhau bod pobl hŷn yn derbyn gofal trugarog gydag urddas sy'n ymateb iddyn nhw fel unigolion.

RfA 6.11 – rhaglen hyfforddiant genedlaethol seiliedig ar gymwyseddau ar gyfer comisiynwyr – bydd pobl hŷn yn cael eu rhoi mewn cartrefi gofal sy'n gallu ateb eu hanghenion gan gomisiynwyr sy'n deall cymhlethdodau darparu gofal ac yn gallu herio darparwyr ynghylch gofal annerbyniol o bobl hŷn.

Sgoriwyd dau o'r ymatebion fel rhai rhannol, yn benodol yng nghyswllt datblygu a gweithredu rhaglen i recriwtio a hyfforddi rheolwyr cartrefi gofal yn y dyfodol (RfA 5.1) a datblygu a gweithredu cyfres safonol o sgiliau gorfodol a chymwyseddau seiliedig ar werthoedd ar gyfer recriwtio staff gofal (RfA 5.3). Rhoddwyd adborth felly sy'n cynnig arweiniad pellach ar sut y gallai'r Cyngor Gofal ddarparu'r canlyniadau sydd mewn golwg.

AGGCC

Dim ond sicrwydd rhannol y mae ymateb AGGCC wedi'i roi i mi y byddant yn cwrdd â fy Ngofynion Gweithredu ac yn darparu'r canlyniadau sydd mewn golwg oherwydd sgoriwyd eu hymatebion naill ai fel rhai rhannol neu annerbyniol.

O'r pedwar Gofyniad Gweithredu yr oedd AGGCC yn destun iddynt, sgoriwyd tri fel rhai rhannol (RfA 1.5 – datblygu rhestr benodol o fyth-ddigwyddiadau, RfA 6.2 – defnyddio adborth gan bobl hŷn i yrru gwelliannau parhaus a RfA 6.9 – gwybodaeth am ansawdd bywyd yn yr adroddiad blynyddol) a sgoriwyd un fel annerbyniol (RfA 6.3 – defnyddio aseswyr llewg fel rhan o'r broses arolygu).

Rhoddwyd adborth felly sy'n cynnig arweiniad pellach ar sut y gallai'r AGGCC ddarparu'r canlyniadau sydd mewn golwg.

Llywodraeth Cymru

Methodd y rhan fwyaf o'r ymatebion gan Lywodraeth Cymru i bob un o fy Ngofynion Gweithredu â rhoi digon o fanylion i roi sicrwydd imi y darperir y canlyniadau sydd mewn golwg.

Fe wnaeth Lywodraeth Cymru ddangos ymrwymiad i ddatblygu dull cenedlaethol o gynllunio gofal (RfA 1.1), gwella'r cymorth ymatal mewn cartrefi gofal (RfA 1.3), datblygu canllawiau ar arferion da ar brydau bwyd a phrofiadau bwyta (RfA 1.4) a datblygu trefniadau diogelu sy'n cydnabod yn glir bod esgeulustod emosïynol yn fath o gam-drin (RfA 3.6). Fodd bynnag, mae'n hynod siomedig nodi o'r 21 Gofyniad Gweithredu yr oedd Llywodraeth Cymru'n destun iddynt mai ond y pedwar ymateb hwn a sgoriwyd fel rhai derbyniol, gyda chwech wedi eu sgorio fel rhai rhannol ac 11 fel rhai annerbyniol.

Rhoddwyd adborth felly sy'n cynnig arweiniad pellach ar sut y gallai Llywodraeth Cymru ddarparu'r canlyniadau sydd mewn golwg.

Casgliad

Mae'r rhan fwyaf o'r cyrff statudol oedd yn destun fy Adolygiad wedi rhoi'r sicrwydd sydd ei angen arnaf y cyflwynir newid i ddarparu'r canlyniadau sydd mewn golwg, gan nodi'n glir pa gamau y cymerir ganddynt i wella ansawdd bywyd i bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yng Nghymru.

Fodd bynnag, hyd yma ni roddodd AGGCC na Llywodraeth Cymru y sicrwydd cyffredinol sydd ei angen arnaf ac y mae gan bobl hŷn hawl i'w ddisgwyl.

Yn fy Adolygiad roeddwn yn glir iawn beth fyddai'r effaith ar bobl hŷn a'r pris y byddent yn ei dalu os na chymerir y camau gofynnol ac os na ddarperir y canlyniadau sydd mewn golwg. Nid wyf i'n barod i weld y pris hwnnw'n parhau i gael ei dalu, ac ni ddylai neb 'chwaith mewn gwasanaeth cyhoeddus ac yn y gymdeithas ehangach.

Byddaf yn cadw trwyn ar y maen am gyn hired ag sydd angen i sicrhau y cymerir y camau ac y cyflawnir y canlyniadau hyn. Dros y flwyddyn i ddod, byddaf yn gweithio mewn partneriaeth ag ystod o gyrrff proffesiynol, rhanddeiliaid allweddol a phobl hŷn i barhau i ddatblygu gwybodaeth a rhannu arferion da ar draws y meysydd hynny lle mae angen gwneud gwelliannau pellach.

Byddaf hefyd ymhen 18 mis yn cyflawni adolygiad pellach yn canolbwyntio ar y canlyniadau a ddisgrifiais yn yr adroddiad ar fy Adolygiad. Byddaf yn disgrifio sgôp a chylch gwaith fy adolygiad dilynol ym mis Tachwedd, ond eto bydd ganddo leisiau pobl hŷn wrth ei galon. Drwy'r craffu dilynol hwn, byddaf yn chwilio am dystiolaeth bod yr ymrwymadau a gefais, ac a adlewyrchir yn y datganiad hwn, wedi eu trosi'n welliannau amlwg sy'n effeithio er gwell ar ansawdd bywydau pobl.

Roedd fy Adolygiad yn trafod pobl a'u bywydau, y gwerth a roddwn ar y bywydau hynny a'r gwerth a roddwn fel cenedl ar ein pobl hŷn. Mae fy Adolygiad yn nodi'n glir iawn beth fydd effaith methu â newid y system a'r pris sy'n cael ei dalu pan fydd pethau'n methu. Mae'r cyrff cyhoeddus sy'n destun fy Adolygiad yn atebol am y newid sydd ei angen, a thrwy fy ngwaith parhaus byddaf yn eu dal yn atebol i bobl hŷn.

Atodiad B – Datganiad ‘Flwyddyn yn Ddiweddarach’ y Comisiynydd ar yr Adolygiad Cartrefi Gofal (Cyhoeddwyd 10 Tachwedd 2015)

Pan gyhoeddais fy Adolygiad o Gartrefi Gofal ym mis Tachwedd 2014, amlinellais chwech o Anghenion Gweithredu ar gyfer Darparwyr Cartrefi Gofal er mwyn gwella ansawdd bywyd a’r gofal am bobl hŷn sy’n byw mewn cartrefi gofal yng Nghymru.

Wrth ddadansoddi’r ymatebion gan Ddarparwyr, roeddwn yn chwilio am dystiolaeth a fyddai’n rhoi sicrwydd i mi fod y newid y mae pobl hŷn sy’n byw mewn cartrefi gofal yn ei ddymuno ac angen ei weld yn cael ei gyflawni.

Yn gyffredinol, rydw i wedi bod yn fodlon gyda lefel yr ymgysylltu gan lawer o ddarparwyr, sy’n amlwg wedi neilltuo amser a meddwl wrth lunio eu hymatebion i mi.

Mae llawer o ddarparwyr cartrefi gofal wedi fy sicrhau y byddan nhw’n gweithredu er mwyn gwella ansawdd bywyd a’r gofal am bobl hŷn mewn cartrefi gofal.

Roedd ymatebion i nifer o’r Hanghenion Gweithredu (AG) gan y darparwyr hyn yn arbennig o gadarnhaol:

AG 1.2 – Pecyn Croeso - mae’r holl bobl hŷn yn derbyn ‘Pecyn Croeso’ safonol wrth iddyn nhw gyrraedd mewn cartref gofal sy’n nodi sut y bydd rheolwr y cartref gofal a’r perchennog yn sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu cwrdd, bod eu hawliau yn cael eu cynnal a’u bod yn derbyn yr ansawdd bywyd gorau posibl.

AG 3.2 – Hyfforddiant Dementia – mae holl weithwyr cartrefi gofal yn ymgymryd â hyfforddiant sylfaenol ar ddementia fel rhan o’u cwrs cynefino ac mae holl staff gofal a rheolwyr cartrefi gofal yn ymgymryd â hyfforddiant pellach ar ddementia yn barhaus fel rhan o’u datblygiad sgiliau a chymhwysedd.

AG 3.3 - Cyfeillio – bydd pobl hŷn yn cael eu cefnogi i gadw eu cyfeillion presennol a chynnal cysylltiadau cymdeithasol a/neu (d)diwylliannol ystyrlon, yn y cartref gofal a thu allan i'r cartref fel ei gilydd.

AG 5.5 – Eiriolwyr Dementia – mae'n rhaid i bob cartref gofal gael o leiaf un aelod o staff sy'n eiriolwr ar ddementia.

Mae'r darparwyr hyn wedi dangos ymrwymiad gwirioneddol tuag at gyflawni'r newid sydd ei angen, nid yn unig wrth ddarparu gwybodaeth fanwl drwy'u hymatebion, ond yn ogystal drwy fynychu seminarau ymarfer da yr ydw i wedi'u cynnal gyda sefydliadau allweddol eraill yn y sector cartrefi gofal.

Fodd bynnag, rydw i'n siomedig nad oedd nifer o Ddarparwyr yn ymgysylltu yn llawn â'r broses Adolygu: nid oedd rhai darparwyr yn ymateb, tra nad oedd eraill yn darparu gwybodaeth lawn pan ofynnwyd iddyn nhw. O ganlyniad, ni allaf fod yn sicr y gall y darparwyr hyn gyflawni'r newid y mae pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yn ei ddymuno ac angen ei weld. Nid oedd fy Adolygiad yn edrych ar y safonau gofal yn erbyn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol gan mai swyddogaeth y rheoleiddiwr a'r arolygydd gofal cymdeithasol yng Nghymru yw hyn (AGGCC).

Er gwaethaf yr ymarfer da a welais, mae fy nadansoddiad yn dangos yn eglur bod meysydd lle y mae angen gwaith a chefnogaeth bellach os yw canlyniadau fy Adolygiad am gael eu cyflawni. Nid yw hyn yn tynnu oddi wrth yr ymrwymiad ymysg llawer o Ddarparwyr i wella yn barhaus, ond y mae'n dangos maint yr her sydd o'n blaenau.

Er mwyn cefnogi Darparwyr Cartrefi Gofal i gyflawni'r newid sydd ei angen, rydw i wedi cyflwyno seminarau ymarfer da a dysgu drwy Gymru, mewn partneriaeth â sefydliadau allweddol fel Fy Mywyd Mewn Cartref a Chyngor Gofal Cymru.

Roedd y seminarau, a oedd yn cynnwys cyflwyniadau gan arbenigwyr sy'n gweithio yn y sector cartrefi gofal a nifer o weithdai, yn caniatáu Darparwyr ddysgu mwy ynglŷn â'r themâu allweddol a oedd yn cynnwys dementia, gwranddo ar breswylwyr a staffio.

Mynychwyd y seminarau gan gannoedd o Ddarparwyr Cartrefi Gofal a oedd yn amlwg wedi ymrwymo i wneud gwahaniaeth i fywydau pobl hŷn. Dangoswyd yr ymrwymiad hwn gan ernesau a wnaed yn ystod y seminarau, a oedd yn cynnwys addewidion fel:

“Cydnabod, cyhoeddi ac annog y ‘pethau bychain’ sydd o bwys mewn lleoliadau Cartref Gofal ar gyfer staff, preswylwyr a theuluoedd h.y. arwyddion syml/caredig, gweithredoedd o garedigrwydd.”

“Datblygu bywyd, cariad a chwerthin i ddod y math o ofal sy’n creu ein sefydliad a staff i ofalu am bobl bob dydd a phob amser.”

“Darparu’r fframwaith a’r gefnogaeth i ganiatáu ein preswylwyr i ddilyn bywyd llawn a gwerthfawr y maen nhw’n ei reoli eu hunain.”

“Gwneud o leiaf bump o bobl chwerthin bob dydd.”

Byddaf yn parhau i weithio gydag amrediad eang o sefydliadau, fel y Coleg Nyrso Brenhinol, y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol a Fforwm Gofal Cymru, yn ogystal ag yn uniongyrchol gyda darparwyr cartrefi gofal, er mwyn parhau i ddatblygu ein meddwl, ein gwybodaeth a’n hymarfer da. Yn ychwanegol, byddaf yn parhau i rannu’r dysgu o’r Hadolygiad a gwaith cysylltiedig gyda sefydliadau statudol a chyrff proffesiynol er mwyn eu cefnogi i chwarae eu rhan wrth gyflawni’r canlyniadau yr wyf i’n disgwyl eu gweld.

Cyrff Cyhoeddus sy’n Cyflenwi Gwelliannau ar gyfer Pobl Hŷn

Yn ogystal, mae fy natganiad heddiw yn gyfle i mi fyfyrio ar y gwelliannau a gyflawnwyd gan gyrff cyhoeddus drwy Gymru ers i mi gyhoeddi fy Adroddiad ar Adolygiad Cartrefi Gofal union flwyddyn yn ôl heddiw. Rydw i’n falch o nodi bod Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd wedi fy narparu eisoes gydag enghreifftiau o ymarfer da a fydd yn ategu eu cyflawniad nhw o’r Hanghenion Gweithredu.

Er enghraifft, y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent wedi datblygu holiadur a fydd yn cael ei ddsbarthu i weithwyr cartrefi gofal yn yr Awdurdod Lleol, er mwyn asesu anghenion hyfforddi ar ddementia yn awr ac yn y dyfodol, fel y gellir trefnu hyfforddiant i wella sgiliau a chymwyseddau staff i sicrhau bod anghenion preswylwyr sy'n byw gyda dementia yn cael eu deall yn llawn a bod y gofal sy'n cael ei ddarparu yn cwrdd â'u hanghenion.

Mae Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan yn ystyried datblygu cynllun cyfeillio gwirfoddol arloesol gyda Chymdeithas y Milwyr, Morwyr, Awyrenwyr a'u Teuluoedd (CMMAT) a Chydlynnydd yr Heddlu ar Wirfoddoli Cadetiaid yr Heddlu i ddarparu cyfeillachwyr i gyn-filwyr hŷn a swyddogion yr heddlu wedi ymddeol sy'n byw mewn cartrefi gofal. Tra'i fod yn parhau'n ddyddiau cynnar, mae gan y fenter hon botensial gwirioneddol nid yn unig i ymdrin ag unigrwydd ar arwahanrwydd – sy'n broblem sylweddol mewn llawer o gartrefi gofal – ond yn ogystal i greu cysylltiadau cryfach rhwng gwahanol genedlaethau.

Yn ddiweddar, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi cyflwyno Hyfforddiant mewn Iechyd y Geg i staff sy'n gweithio mewn lleoliadau cartrefi gofal, gydag Eiriolwyr Iechyd y Geg yn cael eu nodi yn yr holl leoliadau gofal ac a fydd yn derbyn hyfforddiant ac adnoddau ychwanegol fel y gallan nhw hyfforddi aelodau newydd o staff. Bydd pob cartref yn derbyn Bocs Adnoddau sy'n cynnwys adnoddau glanweithdra'r geg ynghyd â dogfennaeth i gwrdd â'r gofynion cenedlaethol, a bydd y Bwrdd Iechyd yn ymgymryd â 2 Ymweliad Sicrhau Ansawdd y flwyddyn ac yn adrodd am ganlyniadau i'r Grŵp Ansawdd a Diogelwch Deintyddol. Yn ogystal, bydd cyfleuster ar gyfer ymweliad gan Dîm Clinigol Deintyddol i ddarparu triniaeth lle bo'n bosibl ac arwain y ffordd at Wasanaethau Deintyddol eraill sy'n cael eu dyrannu i Ddeintyddion a Gweithwyr Proffesiynol Gofal Deintyddol yn y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Ni allaf roi'r wybodaeth ddiweddaraf mewn perthynas â'm sicrwydd o ran y Gofynion ar gyfer Gweithredu a neilltuwyd i Lywodraeth Cymru gan nad ydynt wedi rhoi rhagor o wybodaeth mewn perthynas â'r gweithredu sydd

ganddynt ar droed neu sy'n arfaethedig er mwyn cyflawni'r newid sydd ei angen.

Rwyf wedi ysgrifennu at y Gweinidog i fynegi fy siom ac i ddynodi fy mharodrwydd parhaus i ddarparu cyngor a chefnogaeth, pan fo hynny'n briodol, i fwrw ymlaen â'r gweithredu gofynnol.

Symud Ymlaen

Ym mis Awst, gwnes fy mwriad yn eglur, sef cynnal adolygiad dilynol ymhen 18 mis er mwyn sicrhau bod y camau gweithredu a gafodd eu haddo gan gyrrff cyhoeddus a Darparwyr Cartrefi Gofal ar y gweill – sy'n hanfodol er mwyn cyflawni'r canlyniadau i bobl hŷn a amlinellwyd yn fy adroddiad Adolygiad.

Bydd yr adolygiad dilynol yn cael ei strwythuro o amgylch y model ansawdd bywyd sydd wedi'i gynnwys yn fy Fframwaith Gweithredu 2013-17, a byddaf yn edrych am dystiolaeth fod y camau gweithredu sydd ar y gweill drwy Gymru yn sicrhau bod pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal:

- Yn gallu gwneud y pethau sy'n bwysig iddyn nhw
- Yn teimlo'n ddiogel a bod pobl yn gwrandio arny'n nhw, yn eu gwerthfawrogi ac yn eu parchu
- Yn byw mewn lle sy'n addas iddyn nhw ac i'w bywydau
- Yn gallu cael yr help y maen nhw'n ei angen
- Fel rhan o'r Adolygiad hwn, byddaf yn chwilio yn ogystal am dystiolaeth bod cynllun cenedlaethol yn bodoli ar gyfer sicrhau cyflenwad o gartrefi gofal o ansawdd uchel yn y dyfodol, a bod gan Gymru'r staff cywir mewn cartrefi gofal, gyda'r sgiliau cywir, er mwyn cyflawni'r gofal gorau posibl i bobl hŷn.

Yn y cyfamser, ochr yn ochr â'm gwaith i rannu gwybodaeth ac arferion da, byddaf yn cyfarfod y cyrff statudol sy'n rhan o'm Hadolygiad, fel eu bod yn gallu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i mi am eu camau gweithredu er mwyn cyflawni canlyniadau fy Adolygiad.

Fel Comisiynydd, rydw i wedi bod yn eglur bod fy Adolygiad yn sylfaenol ynglŷn â'r bywydau y mae pobl yn eu dilyn yn y lle y dylen nhw fod yn gallu'i alw'n gartref. Tra bod yr atebolrwydd i wella ymarfer a chefnogi

hawl pobl i ansawdd da o fywyd yn gyfrifoldeb i'r cyrff sy'n destun fy Adolygiad, byddaf yn parhau i'w cefnogi nhw i wella ein system cartrefi gofal, cynyddu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth, a thynnu sylw at ymarfer da a ellir ei gyflwyno'n ehangach, er mwyn sicrhau bod pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yng Nghymru yn derbyn yr ansawdd bywyd gorau posibl.

Atodiad C – Gwybodaeth ategol i Adolygiad Cartrefi Gofal y Comisiynydd a ddarparwyd gan AGGCC (Derbyniwyd 27 Tachwedd 2015)

Yn dilyn ein cyfarfod ar ddydd Mercher 25 Tachwedd, rwyf yn ysgrifennu i roi diweddariad i chi ar y camau sy'n cael eu cymryd gan AGGCC yn dilyn ein hymateb cyntaf dyddiedig 2 Chwefror. Mae hefyd yn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 9 Tachwedd 2015 lle'r oeddech yn gofyn am ddiweddariad ar ein gwaith o wreiddio Hawliau Dynol o fewn y fframwaith arolygu newydd. Dywedasoeh wrthym y byddai'r wybodaeth yn eich helpu i roi tystiolaeth i Bwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Cynulliad Cenedlaethol.

Fel y gwnaethom ei drafod ar 17 Medi, rydym yn awyddus i weithio'n gadarnhaol gyda chi gan gefnogi'r camau yr ydych yn eu cymryd i yrru gwelliannau yn y sector cartrefi gofal. Fodd bynnag, fel rheoleiddiwr rhaid i ni hefyd weithredu yng nghyd-destun fframwaith cyfreithiol. Fel y gwnaethom ei egluro, yn ogystal ag ymateb i'ch Adolygiad, rhaid i ni hefyd ystyried beth fydd disgwyliadau'r Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) ac argymhellion yr adroddiad "Chwilio am Atebolrwydd" a gyhoeddwyd yn dilyn adolygiad Margaret Flynn.

Wedi dweud hyn, pan wnaethom gyfarfod ar 17 Medi fe wnaethom eich diweddaru ar y datblygiadau cadarnhaol a ddisgrifiwyd yn ein hymateb i'ch Adolygiad, ac yn benodol:

- **Cynnydd gyda'r Fframwaith Barnu Ansawdd**

Mae'r astudiaeth beilot gychwynnol o 14 arolygiad wedi cael ei chwblhau a'i gwerthuso, ac roedd eich cynrychiolydd yn bresennol yn nhrefodaeth y grŵp rhanddeiliaid ar gyfer y prosiect hwn. Mae nifer o'r themâu yn eich Adolygiad wedi cael eu cynnwys yn y fframwaith arolygu. Roedd canlyniad ein hastudiaeth beilot yn hynod gadarnhaol. Mae'r fframwaith yn amlwg yn helpu darparwyr i ddeall sut y mae angen i'w gwasanaethau wella ac, yn bwysig iawn, yn meithrin dyhead a chymhelliad i wella. Byddwn yn cyflwyno'r fframwaith arolygu newydd yn 2016.

- **Gwreiddio Hawliau Dynol a gosod meincnod ar gyfer gofal annerbyniol**

Rydym wedi datblygu fframwaith seiliedig ar Hawliau Dynol i gyd-fynd â'n fframwaith arolygu. Mae hwn wedi'i gyd-gynhyrchu ac wedi'i rannu â nifer o randdeiliaid, gan gynnwys ein Bwrdd Cyngori Cenedlaethol. Mae'n parhau i gael ei ddiwygio ar sail adborth diweddar. Mae'r fframwaith yn hyrwyddo gofal da ond hefyd yn tynnu sylw at ofal annerbyniol tebyg i'r "byth-ddigwyddiadau" a ddisgrifiwch yn eich gofynion gweithredu. Un agwedd gadarnhaol ar y dull hwn yw lle bydd gofal annerbyniol yn cael ei adnabod y bydd camau gorfodi'n cael eu sbarduno. Bydd Hawliau Dynol felly'n cael eu prif ffrydio o fewn y fframwaith newydd. Byddwn yn cyhoeddi'r fframwaith yn y llawlyfrau i ddarparwyr ac arolygwyr ac yn gweithredu hyn yn 2016.

Hefyd yn ddiweddar daeth AGGCC yn aelod o'r grŵp cyngori a sefydlwyd ar gyfer y Comisiynydd Cydraddoldeb a Hawliau Dynol sy'n datblygu canllawiau ymarferol i ddarparwyr gofal cymdeithasol preifat. Rydym wedi rhannu ein fframwaith â nhw.

- **Defnyddio aseswyr lleyg**

Fel y gwnaethom ei egluro wrth gyfarfod ar 17 Medi, er ein bod yn awyddus i gynnwys pobl yn ein gwaith nid ydym yn meddwl mai aseswyr lleyg yw'r ffordd orau o gryfhau arferion rheoleiddio a chynnwys dinasyddion yn ein gwaith. Cawsom brofiad o ddefnyddio aseswyr lleyg yn y gorffennol a chafwyd problemau gyda nhw. Nodwn eich argymhelliad a byddem yn croesawu unrhyw werthuso seiliedig ar dystiolaeth y gallech ei gyflwyno i gyfiawnhau eich gofyniad. Rydym wrthi'n cael trafodaeth â'r Cyngorau Iechyd Cymuned i weld pa gyfraniad y gallai eu gwirfoddolwyr ei wneud i arolygu a gwerthuso cartrefi gofal.

O ran cynnwys dinasyddion yn ehangach, mae ein Bwrdd Cyngori Cenedlaethol, gyda 50% ohono'n ddinasyddion, wedi parhau i wneud ei ran wrth i'w aelodau gymryd rhan mewn nifer o'r grwpiau prosiect yn AGGCC, a thrwy gyfrannu'n uniongyrchol at ddatblygu'r Bil a rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae recriwtio i'n tri Phanel Cyngori Rhanbarthol wedi'i gwblhau a chynhaliwyd

digwyddiad cynefino ym mis Tachwedd. Bydd y paneli rhanbarthol yn mynd yn fyw yn Ionawr 2016 gan sicrhau bod llais y dinesydd yn fwy canolog fyth i waith AGGCC. Rydym wedi recriwtio 14 o ddinasyddion i'r tri phanel, chwe rheolwr gofal cofrestredig a phedwar comisiynydd gwasanaeth. Bydd aelodau'r paneli'n gweithio â thimau arolygu rhanbarthol i wirio ansawdd gwaith AGGCC a hefyd yn cefnogi'r gwaith o gynnwys dinasyddion ymhellach yng ngwaith AGGCC ar draws Cymru. Bydd y paneli'n trafod y sialensau sy'n wynebu'r gwasanaethau gofal a chymdeithasol a ddarperir ar draws eu rhanbarth, a sut y gellid eu hateb.

- **Fforwm Ansawdd**

Datblygwyd y Fforwm Ansawdd gan AGGCC ac mae'n gydweithrediad o arweinwyr o'r gymuned gofal cymdeithasol, gan gynnwys comisiynwyr iechyd a gofal cymdeithasol a darparwyr gofal cartref a chartrefi gofal. Ynghyd ag AGGCC, HIW a Chyngor Gofal Cymru fel rheoleiddwyr gofal, rydym wedi datblygu fframwaith unedig o gymorth ymarferol i yrru gwelliannau mewn gofal integredig o ansawdd o amgylch y person.

Nod y Fforwm yw gwella dealltwriaeth yn gyffredinol o beth yw ansawdd a'r hyn a ddisgwylir gan bob partner drwy "gytundeb" gweithredol i sicrhau y dehonglir "ansawdd" yn gyson yn eu gwahanol rolau ac fel Fforwm. Nod canolog y fforwm yw adnabod, dadansoddi'r dystiolaeth a chymeradwyo arferion gorau y gellir eu profi i weld pa effaith a pha ddylanwad a gawsant ar ansawdd y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a ddarperir. Gall y gwaith cydweithredol hwn gymeradwyo a hyrwyddo cynhyrchion allweddol, a thrwy hynny wella ansawdd gofal a lles.

Mae gofal cartref a chartrefi gofal yn feysydd blaenoriaeth. Mae'r fforwm wedi adnabod rhestr o "faterion ysgeler" i weithredu arnynt, gan ddechrau ag atal codymau mewn cartrefi gofal ac yn y gymuned. Drwy gymeradwyo arferion gorau, hyrwyddo'n gydweithredol, lledaenu'n eang a chyhoeddi cynhyrchion allweddol, nod y fforwm yw gweld dull safonol yn cael ei weithredu wrth atal ac ymateb i godymau; felly hefyd ar gyfer diffyg hylif, maeth, wlserau / briwiau pwysu a meddyginiaeth ddiogel. Drwy weithio'n gydweithredol a chymhwyso safon i bob un o'r pethau hyn, bydd comisiynwyr yn contractio i'r safonau hyn, bydd darparwyr yn darparu'r

safonau a bydd rheoleiddwyr yn cynnwys y safonau yn eu harolygiadau a'u hadroddiadau.

- **Adroddiad y Prif Arolygydd**

Mae fersiwn ar-lein ddiwygiedig o hunanasesiad wedi'i datblygu a gobeithiwn ei chyflwyno yn 2016. Am y tro cyntaf, bydd hyn yn rhoi sail dystiolaeth gadarn i AGGCC ar gyfer ei defnyddio yn adroddiad y Prif Arolygydd ac yn golygu y gallwn adrodd ar nifer o'r agweddau gofal y cyfeiriwch atynt yn eich gofynion gweithredu. Yn bwysig ac ymhen amser, bydd yn lleihau'r dyblygu sy'n digwydd o ran data a gesglir gan asiantaethau eraill (comisiynwyr iechyd a gofal cymdeithasol a Chyngor Gofal Cymru). Erbyn hyn rydym wedi llwyddo i gwblhau treial bychan gyda darparwyr o fersiwn "ar-lein" fyrrach o'r hunan-asesiad newydd. Arwyddocâd y symudiad at gwblhau ar-lein yw y gallwn wedyn gasglu gwybodaeth i greu cronfa ddata er mwyn gwneud dadansoddiad iawn ar sail tystiolaeth.

Gobeithio fod yr ymateb hwn yn eich sicrhau bod AGGCC yn parhau i wneud cynnydd cadarnhaol wrth yrru gwelliannau yn y sector cartrefi gofal.

Atodiad D – Ymateb terfynol / gwybodaeth ategol i Adolygiad Cartrefi Gofal y Comisiynydd a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru (Derbyniwyd 8 Rhagfyr 2015)

Adolygiad o ansawdd bywyd a'r gofal a roddir i bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yng Nghymru: Diweddariad ar gynnydd

Rhagarweiniad

Mae Llywodraeth Cymru'n ymrwymedig i wella canlyniadau, lles ac ansawdd bywydau pobl hŷn mewn cartrefi gofal. Mae gan ein fframwaith deddfwriaethol ffocws clir ar wella ansawdd bywyd pawb sy'n byw yng Nghymru; mae hyn yn cynnwys y fframwaith ar gyfer trawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru drwy Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2015.

Sefydlwyd y Grŵp Llywio Cartrefi Gofal i roi arweinyddiaeth ac i sicrhau y cymerir camau i ddatrys problemau'n ymwneud â'r sector cartrefi gofal, gan gynnwys yr argymhellion penodol a wneir yn Adolygiad y Comisiynydd. Mae gan y grŵp hwn gynrychiolaeth amlasiantaethol ac mae'n cynnwys yr holl randdeiliaid sydd â rôl allweddol i'w chwarae yn y sector cartrefi gofal.

Mae nifer o ffrydiau gwaith sy'n cefnogi gwaith y grŵp llywio. Maen nhw'n cynnwys:

- Gweledigaeth a Modelau Newydd – Dan arweiniad Llywodraeth Cymru, mae'r ffrwd waith hon wedi canolbwyntio ar greu gweledigaeth ar gyfer cartrefi gofal yng Nghymru.
- Dadansoddi'r Farchnad – Dan arweiniad y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol (NCB), mae'r ffrwd waith hon yn dyfeisio methodoleg i gyflawni dadansoddiad marchnad manwl o'r sector y gellir ei ddiweddarau'n rheolaidd ac adrodd arno ar lefel awdurdod lleol, bwrdd iechyd lleol / rhanbarthol a hefyd ar lefel Cymru gyfan.
- Cynllunio a Chomisiynu Integredig – Dan arweiniad y NCB, mae'r ffrwd waith hon yn cwmpasu'r gwaith o gynllunio a chomisiynu lleoliadau hirdymor mewn cartrefi nyrsio a chartrefi gofal preswyl, ynghyd â lleoliadau trosglwyddo neu dros dro i hwyluso rhyddhau

cleifion o'r ysbyty, a dewisiadau llety. Bydd hyn yn cynnwys gwaith ar ganllawiau, safonau a chontractau model neu enghreifftiol.

- Y Gweithlu – Dan arweiniad Llywodraeth Cymru mae'r ffrwd waith hon yn canolbwyntio ar weithredu'n ymwneud â recriwtio, cadw, hyfforddi a datblygu staff. Fe'i defnyddir hefyd i oleuo'r gwaith o gynllunio'r gweithlu.
- Arferion Da ac Ansawdd – Dan arweiniad Llywodraeth Cymru mae'r ffrwd waith hon yn canolbwyntio ar adnabod a rhannu arferion da. Bydd hefyd yn edrych ar sut y gallwn godi ymwybyddiaeth a gwella gwybodaeth i'r cyhoedd.
- Gosod Ffioedd - i edrych ar sefydlu dull cytûn o godi costau / ffioedd am ofal (i'w sefydlu'n ffurfiol ym mis Rhagfyr).

Mae swyddogion polisi arweiniol hefyd yn cwrdd yn rheolaidd yn Llywodraeth Cymru ac yn gyfrifol am feysydd polisi penodol sydd wedi eu nodi yn Adolygiad y Comisiynydd. Rhoddir diweddariad ffurfiol pob chwarter i'r Grŵp Llywio Cartrefi Gofal. Mae swyddogion hefyd yn meddwl sefydlu grŵp sicrhau ansawdd ac yn ystyried sut orau i fynd ati i gynnwys pobl hŷn, preswylwyr a'u teuluoedd yng ngwaith y ffrwd waith arferion da.

Mae'r adran ganlynol yn rhoi diweddariad manwl ar gynnydd gydag argymhellion penodol yn Adolygiad y Comisiynydd.

Gweithredu 1.2 [Pecyn Croeso]

- Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn cynnwys gofyniad statudol i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth - ac y dylai hyn fod mewn ffurf sy'n hygyrch i'r unigolyn. Ar hyn o bryd mae'n ofynnol i wybodaeth fod ar gael i'r holl unigolion sy'n symud i dderbyn gofal mewn cartrefi preswyl yng Nghymru, sef pawb gan gynnwys pobl sy'n ariannu eu hunain. Bydd y gofyniad hwn yn cael ei gryfhau ar sail gyfreithiol drwy Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru). Bwriedir hefyd i becyn gwybodaeth gael ei gynhyrchu a'i ddosbarthu fel rhan o ddatblygu'r rheoliadau a'r codau ymarfer fydd yn ategu'r Ddeddf hon. Gwneir hyn o fewn yr amserlen a nodir ar gyfer y ddeddfwriaeth berthnasol.
- Bydd gwaith i roi sylw i'r argymhellion yn Adolygiad y Comisiynydd yn cael ei wneud drwy ffrwd waith arferion da'r Grŵp Llywio Cartrefi Gofal.

Bydd hyn yn cynnwys gweithio gyda phobl a'u teuluoedd, i brofi a sicrhau bod y pecyn gwybodaeth croeso'n cwrdd â'u hanghenion. Gwneir hyn yn y tymor byr gan y ffrwd waith arferion da (gan ddisgwyl darparu'r gwaith erbyn Mai 2016) a'i ddefnyddio i oleuo'r broses o ddatblygu gwaith fydd yn cael ei wneud o dan y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru).

- Byddwn yn gweithio â rhanddeiliaid allweddol fel Fforwm Gofal Cymru a Chyngor Gofal Cymru i ddatblygu fframwaith fydd yn nodi'r cynnwys craidd sydd i fod yn rhan o'r wybodaeth a roddir i bawb sy'n symud i fyw mewn cartrefi gofal ac i'w teuluoedd. Bydd hyn yn cael ei ystyried ochr yn ochr â'r gofyniad yn Neddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) o ran beth ddylai codau ymarfer a rheoliadau statudol ei gynnwys a hefyd yn y canllawiau ar arferion da.
- Ein bwriad drwy'r gwaith hwn yw sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r gofal a'r cymorth y byddant yn ei dderbyn mewn cartref gofal a beth y dylent ei wneud a gyda phwy y dylent siarad os oes ganddynt bryderon.

Gweithredu 2.1 [Cynllun Cenedlaethol ar gyfer hybu a gwella iechyd corfforol a lles meddwl mewn cartrefi gofal]

- Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn canolbwyntio ar anghenion gofal a chymorth pobl gyda'r bwriad o wella lles, ac yn rhoi pwyslais clir ar atal ac ymyrryd yn fuan. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol gyflawni asesiad ar y cyd o anghenion eu poblogaeth a sicrhau bod gofal a chymorth yn ei le i ateb yr anghenion hynny. Defnyddir y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol i fesur cynnydd gyda'r Ddeddf ac yng nghyswllt pawb sydd angen gofal a chymorth arnynt, gan gynnwys pobl mewn cartrefi gofal.
- Bydd y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) yn sefydlu'r fframwaith y dylai cartrefi gofal weithredu oddi mewn iddo. Bydd hyn yn cynnwys safonau gofal ar gyfer gofal corfforol integredig a chydgyssylltiedig, gan gynnwys diffygion synhwyraidd, iechyd y geg, diet llesol, ymarfer corff, iechyd meddwl, cyswllt cymdeithasol a gofal ataliol. Byddwn yn gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru ar hyn.
- Mae ystod o waith ar y gweill drwy'r cynllun cenedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol. Mae hyn yn cynnwys adnabod a chwadd ag anghenion pawb, gan gynnwys pobl sy'n byw mewn cartrefi gofal, er mwyn cynnal a gwella eu hiechyd a'u lles. Bydd darparu yn erbyn y cynllun

cenedlaethol yn cael ei fonitro a bydd y wybodaeth ar gael i'r cyhoedd fel bod pobl yn gallu gweld pa gynnydd sy'n cael ei wneud. Mae'r amserlen ar gyfer y gwaith hwn yn dal i gael ei datblygu. Byddwn yn sicrhau bod y diweddariadau ar gael i'r tîm mewnol o swyddogion polisi arweiniol sy'n gyfrifol am weithredu'r argymhellion yn adroddiad y Comisiynydd, ac at sylw'r Grŵp Llywio Cartrefi Gofal; byddem yn annog y Comisiynydd i gyhoeddi'r wybodaeth yma ar ei gwefan.

- Y bwriad yw sicrhau bod ffocws parhaus ar iechyd corfforol a lles meddwl pobl hŷn mewn cartrefi gofal ynghyd â gwelliant parhaus.

Gweithredu 2.3 [Y Rhaglen Atal Codymau Genedlaethol]

- Bydd y ffrwd waith arferion da [mewn] cartrefi gofal yn mapio'r gwaith a'r arferion da presennol ac yn sicrhau bod y rhain yn cael eu rhannu ac y gweithredir arnynt. Y nod yw sicrhau bod arferion da'n dod yn ymarfer safonol a chyffredin. Bydd y ffrwd waith yn cysylltu i'r Grŵp Cyngori Arbenigol ar godymau, fel rhan o'r Rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru. Bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud gan y ffrwd waith arferion da (gan ddisgwyl darparu'r gwaith erbyn Mai 2016).
- Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio â'i phartneriaid i ddatblygu dull o ddarparu ymyriadau atal codymau mewn nifer o wahanol leoliadau, gan gynnwys mewn cartrefi gofal. Mae hyn yn cynnwys asesu'r risg o osteoporosis fel rhan o wasanaethau estynedig Meddygon Teulu ar gyfer manylebau cartrefi gofal (disgwylir i reoli codymau fod yn rhan o'r broses hon), a gweithgareddau drwy'r rhaglen 1,000 o fywydau. Mae hyn yn awgrymu y bydd gan iechyd cyhoeddus a gofal sylfaenol rôl bwysig i'w chwarae mewn atal codymau.
- Bydd y ffocws ar leihau ansymudedd a cholli cryfder yn y cyhyrau / balans er mwyn lleihau'r risg o gael codwm. Yn ogystal ag asesu gallu gwybyddol a chorfforol, lefel annibyniaeth a hanes codymau'r unigolyn, rhaid i gynllun gofal yr unigolyn mewn cartref gofal gynnwys asesiad trylwyr o'r amgylchedd. Rhaid hefyd teilwrio cynlluniau unigolion a sefydliadol i anghenion unigolion penodol a hyrwyddo mwy o weithgareddau cryfhau a balans fel rhan o'u bywydau beunyddiol.

Gweithredu 2.4 [Canllawiau arferion da cenedlaethol ar gyfer amgylchedd y cartref gofal]

- Fel y nodir mewn ymateb i weithredu 1.2, bydd gwaith yn cael ei wneud ar ganllawiau arferion da. Bydd hyn yn cael ei wneud i sicrhau ei fod yn briodol i anghenion pawb, gan gynnwys pobl gyda dementia neu nam ar eu synhwyrau. Bydd canllawiau arferion da'n cael eu datblygu a'u dosbarthu i sicrhau bod arferion da'n dod yn ymarfer safonol a chyffredin.
- O ran amgylchedd y cartref gofal (gan gynnwys cymhorthion bywyd beunyddiol), bydd y ffrwd waith arferion da yn gwneud gwaith pellach i adnabod arferion sydd eisoes yn rhai da (gan ddisgwyl darparu'r gwaith erbyn Mai 2016). Gellir yna ymgorffori hyn yn y gwaith sydd ar y gweill ar ganllawiau, safonau a chontractau model fel rhan o'r gwaith ar gomisiynu gan y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol. Bydd hyn yn ystyried sut orau i sicrhau bod y gofynion yng nghyswllt nam ar y synhwyrau a dementia'n cael eu hymgorffori yn y fframwaith comisiynu a sicrhau bod darparwyr yn cwrdd â'r gofynion penodedig. Bydd y gwaith hwn ar ganllawiau, safonau a chontractau model yn cael ei wneud dros y 6-12 mis nesaf (gan ddisgwyl ei gyflawni erbyn Hydref 2016).
- O dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru), rhaid cynhyrchu safonau ar gyfer cartrefi gofal. Bydd gwaith y ffrwd waith arferion da a'r Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol yn helpu i oleuo'r gwaith hwn. Unwaith y bydd y safonau hyn wedi cael eu datblygu, byddwn yn ystyried beth yw'r ffordd fwyaf effeithiol o'u gweithredu a bydd hyn yn cynnwys darparu cyfarpar, gofynion datblygu'r gweithlu staff a chymorth gan weithwyr proffesiynol gyda'r arbenigedd priodol. O ran dylunio'r amgylchedd ffisegol, yn y cam cynllunio byddwn yn gwneud defnydd o wybodaeth ac arbenigedd cyrff fel y RNIB ac Action on Hearing Loss er mwyn achub ar bob cyfle posibl i wella ansawdd bywyd pobl gyda dementia neu nam ar eu synhwyrau.

Gweithredu 3.1 [Rhaglen hyfforddiant dementia seiliedig ar dystiolaeth a gwerthoedd cenedlaethol safonedig]

- Bydd ffrwd waith y gweithlu'n ystyried materion yng nghyswllt y gweithlu, gan gynnwys hyfforddi a datblygu ar draws y GIG a sectorau eraill.
- Yn lle datblygu hyfforddiant newydd, bydd Llywodraeth Cymru'n mapio'r hyn sydd eisoes yn bodoli a hefyd yn ystyried gwaith ymchwil a wnaed eisoes. Bwriad y gwaith hwn yw rhoi sylw i'r amrywiadau yn ansawdd yr hyfforddiant ac yn y mynediad ato drwy gyflwyno fframwaith yn

defnyddio dulliau seiliedig ar dystiolaeth ac fel y gellir cyfeirio pobl ymlaen at hyfforddiant priodol.

- Mae Cyngor Gofal Cymru wedi cyflawni arolwg manwl i ddysgu mwy am nodweddion, cymhelliad a barn gweithlu sy'n cynnwys y gyfran fwyaf o weithwyr gofal yng Nghymru. Mae'r Cyngor hefyd wedi comisiynu fframwaith ac adnodd dysgu i weithwyr gofal cymdeithasol sy'n gweithio â phobl yr effeithir arnynt gan ddementia. Bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio â'r Cyngor Gofal a Fforwm Gofal Cymru i benderfynu oni ellid cytuno ar ganlyniadau ar gyfer hyfforddi'r gweithlu a fyddai'n safoni cymwysterau o'r persbectif mwyaf priodol, h.y. gyda pha gymwyseddau y mae rhywun yn gadael cwrs hyfforddi, yn hytrach na sut y mae rhywun yn ennill y cymwyseddau hynny.
- Mae'r Gweinidog wedi cyhoeddi bod y Llywodraeth yn bwriadu cofrestru'r holl weithwyr gofal preswyl cartref a gofal oedolion erbyn 2020 am y naill a 2022 am y llall. Cefnogir y cofrestru hyn gan raglen ddatblygu helaeth i'r gweithwyr hynny cyn y dyddiadau hyn.

Gweithredu 4.1 [Datganiad Hawliau Cenedlaethol]

- Byddwn yn datblygu 'Datganiad Hawliau Cenedlaethol'. Yn bwysig, bydd yn cynnwys pa ofal sydd ar gael i breswylwr. Bydd ganddynt hawl i'r un gofal ag unrhyw un sy'n glaf mewn meddygfa Meddyg Teulu, gan gynnwys mynediad at wasanaethau sgrinio iechyd cyhoeddus; y gofal sydd ar gael i breswylwr drwy'r gwasanaeth estynedig ar gyfer cartrefi gofal; a mynediad at yr ystod o wasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol ehangach (fel deintyddol, profion llygad a gwasanaethau cymdeithasol). Bydd y gofal sydd ar gael i bobl sy'n byw mewn cartrefi gofal yn cael ei gyfathrebu'n glir a'i gynnwys fel rhan o'r wybodaeth yn y pecyn croeso.
- Bydd yr adolygiad o wasanaeth estynedig y GMS gyda GPC Cymru a GIG Cymru'n cynnwys ein hymateb i'r argymhellion manwl a wneir yn Adolygiad y Comisiynydd. Y disgwyl yw y bydd y gwasanaeth estynedig diwygiedig ar gyfer cartrefi gofal yn ei le o fis Ebrill 2016 ymlaen. Adolygir ac adroddir yn flynyddol ar ganlyniadau'r gwasanaeth estynedig. Byddwn hefyd yn ystyried sut y gellid efallai defnyddio'r Fframwaith Gweithredu Ansawdd i wneud hyn.
- Y bwriad yw y bydd y gwasanaeth GMS yn cynnig asesiadau holistig newydd o iechyd corfforol a meddyliol y bydd angen eu cyflawni o fewn

28 diwrnod i dderbyn preswylwyr mewn cartref gofal. Bydd y bwrdd iechyd, drwy'r timau gofal sylfaenol a'r clystyrau gofal sylfaenol, yn sicrhau bod anghenion pobl mewn cartrefi gofal preswyl yn cael eu cwrdd. Er enghraifft, gwasanaethau deintyddol a phrofion llygad, nyrsys cymunedol, gwasanaethau allgymorth a nyrsys arbenigol (er enghraifft nyrsys hyfywedd meinwe). Bydd y bwrdd iechyd a'r contractwr Meddyg Teulu hefyd yn ystyried sut i gefnogi hyfforddiant ar gyfer staff a gwella'r cymysgedd o sgiliau mewn cartrefi gofal.

- Fel rhan o'r asesiad holistig wrth dderbyn preswylwr, rhagwelir y bydd rheoli codymau, gofal lliniarol, cymorth iechyd meddwl a ffisiotherapi a therapi iaith a lleferydd i gyd yn cael eu hystyried. Mae'r adolygiad o'r gwasanaeth estynedig hefyd yn cynnwys cynigion i gyflawni adolygiad blynyddol cynhwysfawr, ynghyd ag un adolygiad meddyginiaeth o leiaf. Bydd cyfathrebu rheolaidd rhwng y feddygfa a'r cartref gofal yn rhan annatod o ansawdd a pharhad y gofal.
- Bydd gofal diwedd bywyd yn rhan o'r adolygiad. Y bwriad yw y bydd gan Feddygon Teulu gofrestr o gleifion y credir eu bod yn y 12 mis olaf o'u bywyd. Gellir wedyn paratoi cynllun fydd yn nodi'r gofal, y driniaeth a'r cymorth fel bo'r unigolyn yn gallu diweddu eu bywyd yn y lle sydd orau ganddynt. Bydd gan gartrefi gofal fynediad at dimau gofal lliniarol arbenigol.

Gweithredu 4.5 [Hapwiriadau i weld a yw cartrefi gofal yn cydymffurfio â'r Datganiad Hawliau Cenedlaethol]

- Cafodd y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) ei diwygio yn ystod cam 2 i sicrhau bod yn rhaid i Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru nodi'n glir sut y bydd yn cynnwys y cyhoedd mewn arolygiadau fel rhan o'u gwaith. Gwnaed y diwygiad i ymateb yn uniongyrchol i sylwadau gan randdeiliaid, gan gynnwys y Comisiynydd Pobl Hŷn, a hefyd mewn ymateb i argymhelliad gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Gwnaed diwygiad ychwanegol i ychwanegu Cynghorau Iechyd Cymuned at y rhestr o awdurdodau perthnasol sy'n rhaid iddynt gydweithredu â'i gilydd wrth ymarfer eu swyddogaethau.
- Ar 6 Gorffennaf cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Bapur Gwyrdd i ymgynghori arno tan 20 Tachwedd 2015. Derbyniwyd dros gant o ymatebion ac mae swyddogion wrthi'n eu hadolygu. Bydd ymateb i'r ymgynghoriad yn cael ei gyhoeddi i roi sylw

i'r ymatebion a dderbyniwyd. Un o'r materion sy'n destun trafod yw rôl y Cynghorau Iechyd Cymuned yn y dyfodol ac ydy'r model presennol yn addas i'r pwrpas fel rhan o system fwy integredig. Mae'r Papur Gwyrdd yn gyfle i roi sylw i'r diffygion canfyddedig yn y system bresennol ac i gytuno ar ddull gwell a mwy cydgysylltiedig. Mae hyn yn rhoi cyfle pellach i drafod rôl y Cynghorau Iechyd Cymuned yng nghyswllt ansawdd y ddarpariaeth ofal.

- Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n cynnal trafodaeth â Chynghorau Iechyd Cymuned i weld sut y gallai eu gwirfoddolwyr gyfrannu persbectif lleyg i'r broses o arolygu cartrefi gofal.

Gweithredu 5.2 [Offeryn aciwtedd safonol cenedlaethol]

- Mae Adolygiad y Comisiynydd yn cyfeirio at lefel y staff sydd ei hangen i ddarparu gofal da a diogel. Mae hyn yn fater cymhleth ac nid yn unig yn fater o faint o gymorth sydd ei angen ar yr unigolyn; mae'n dibynnu hefyd ar sgiliau a gwerthoedd y staff gofal. Mae gwersi clir i'w dysgu o'r adroddiad "Darparu Gofal Diogel, Gofal Tosturiol".
- Ffrwd waith y gweithlu sy'n ystyried materion yn ymwneud â staffio. Fe'i defnyddir i oleuo gwaith y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol ac i sicrhau bod y safonau / canllawiau ar gomisiynu a ddatblygir yn cynnwys bod angen cael y staff ar y lefel iawn ac o'r ansawdd iawn i ddarparu gofal a chymorth o ansawdd uchel.
- Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf yn gweithio ar offeryn cenedlaethol llwyth gwaith dibyniaeth i'r sector cartrefi gofal, wedi'i gefnogi gan Brifysgol De Cymru ar ran Llywodraeth Cymru. Mae'r gwaith hwn yn canolbwyntio'n benodol ar sut y bydd yr offeryn aciwtedd a ddefnyddir ar hyn o bryd yn cael ei gymhwyso i'r sector gofal.
- Mae cael staff ar lefel ac o ansawdd priodol yn hanfodol i ddiogelu a sicrhau bod hawliau pobl hŷn yn cael eu cwrdd. Mae Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) yn cynnwys safonau gofal a chymorth newydd. Bydd y rhain yn cyfeirio'n benodol at ba lefel staffio sy'n briodol i gwrdd ag anghenion corfforol ac emosiynol pobl hŷn. Defnyddir yr holl waith a wneir gan ffrwd waith y gweithlu, y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol a Bwrdd Iechyd Cwm Taf i oleuo'r safonau yn y Ddeddf hon.

Gweithredu 5.6 [Gwasanaeth Gwella Cenedlaethol]

- O ran argymhelliad y Comisiynydd i sicrhau dull cenedlaethol o wella cartrefi gofal lle cafwyd risg neu broblemau sylweddau, cynhaliwyd trafodaethau cychwynnol eisoes. Mae Llywodraeth Cymru'n ymrwymedig i weithio â'r Comisiynydd a rhanddeiliaid allweddol eraill i ystyried y ffordd orau o symud ymlaen gyda'r argymhelliad hwn. Bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud yn ystod y 3-6 mis nesaf (gan ddisgwyl darparu'r gwaith erbyn Mai 2016). Bydd hefyd angen i'r ffrwd waith arferion da ystyried a oes unrhyw feysydd penodol i'w gwella sydd angen rhoi sylw iddynt.

Gweithredu 5.7 [Cofrestru'r Gweithlu]

- Mae Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) yn darparu ar gyfer rheoleiddio'r gweithlu ymhellach. Ym mis Tachwedd 2015 cyflwynwyd amserlen ar gyfer datblygu a chofrestru gweithwyr gofal preswyl cartref a gofal oedolion erbyn 2020 am y naill a 2022 am y llall. Bydd y cofrestru hyn yn helpu i sicrhau bod gan staff y sgiliau a'r profiad iawn i ddarparu gofal a chymorth o ansawdd da ac y diogelir pobl hŷn rhag cael niwed neu rhag esgeulustod.

Gweithredu 5.8 [Cyflawni dadansoddiad cost a budd o delerau ac amodau staff gofal]

- Mae Adolygiad y Comisiynydd yn tynnu sylw at dystiolaeth sy'n awgrymu bod telerau ac amodau staff yn y sector gofal yn effeithio ar ansawdd y gofal a'r cymorth a roddir, a chanlyniad hyn.
- Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi dechrau ar waith fel y gallwn ddeall yn well beth yw'r problemau gyda thelerau ac amodau'r gweithlu. Bydd Datganiad Ysgrifenedig yn Ionawr 2016, wedi'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r datganiad ymgynghori. Bydd y gwaith ymchwil yn cael ei gyhoeddi yn Chwefror 2016 gan roi tystiolaeth ar gyfer datblygu cynigion polisi er mwyn gallu gwella'r broses o recriwtio a chadw staff mewn cartrefi gofal.
- Ar ôl i Lywodraeth y DU gyhoeddi ei pholisi ar gyflwyno "cyflog byw cenedlaethol", mae Llywodraeth Cymru hefyd yn datblygu asesiad o'r effaith y bydd y polisi'n ei chael ar y sector yng Nghymru, a bydd hwn ar gael yn 2016.
- Mae ffrwd waith gweithlu'r grŵp llywio cartrefi gofal yn canolbwyntio ar weithredu i wella'r broses recriwtio, hyfforddiant a chymwysterau ar

gyfer rheolwyr cofrestredig, nyrsys a staff gofal uniongyrchol. Bydd canllaw ar gyfer telerau ac amodau da / enghreifftiol i staff yn cael ei ddatblygu o fewn 6-12 mis (gan ddisgwyl ei ddarparu erbyn Tachwedd 2016). Defnyddir allbwn y gwaith hwn i oleuo'r gwaith sy'n cael ei wneud gan y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol ac i sicrhau bod y canllawiau ar gomisiynu'n adlewyrchu bod angen arferion staffio a chyflogaeth da.

- Bydd y mesurau hyn yn rhoi dealltwriaeth well o effaith telerau ac amodau gwaith yn y sector ac yn sicrhau bod y canllawiau ar gomisiynu a chynllunio'r gweithlu'n adlewyrchu bod angen lefel a sgiliau staff priodol i ddarparu gofal o ansawdd da.

Gweithredu 6.1 [Un fframwaith canlyniadau]

- Mae datganiad lles a Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol wedi cael eu datblygu o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Mae'n darparu fframwaith gyda ffocws clir ar ganlyniadau a gwella lles pawb.
- Mae angen i ni sicrhau y defnyddir dull cyson ar draws y sector gofal cymdeithasol ac ystyried sut y gallwn ddefnyddio'r trefniadau adrodd blynyddol safonedig gorau ar gyfer darparwyr gwasanaeth. Mae'r adroddiadau blynyddol hyn yn debygol o gynnwys elfen o adrodd ar safonau ansawdd a chanlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaeth.
- O ystyried mai un o amcanion cyflwyno adroddiadau blynyddol safonedig yw gwneud y wybodaeth yma'n fwy clir a hygyrch i bobl, y disgwyl yw y bydd hyn hefyd yn arwain at wella ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r ansawdd y dylid ei ddisgwyl gan wasanaethau. Atgyfnerthir y disgwyliad hwn gan y Datganiad Hawliau Cenedlaethol (Gweithredu 4.1).
- Bydd grwpiau technegol i edrych ar y materion hyn yn cael eu sefydlu'n fuan yn y Flwyddyn Newydd. Bydd y Comisiynydd Pobl Hŷn yn cael ei wahodd i gyfrannu i'r gwaith hwn ac estynnir gwahoddiad hefyd i randdeiliaid eraill gyda diddordeb.
- Mae Argymhelliad 28 yn adroddiad Cam 1 y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cyfeirio at roi dyletswydd ar Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru i adolygu dulliau awdurdodau lleol a byrddau iechyd o gomisiynu gwasanaethau gofal cymdeithasol yn

erbyn canlyniadau ansawdd bywyd. O ganlyniad i'r argymhelliad hwn, penderfynwyd cynnwys diwygiad yng ngham 2 i gysylltu comisiynu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol i'r broses arolygu, fodd bynnag ni allwn ymestyn y diwygiad hwn i gynnwys byrddau iechyd lleol oherwydd nid yw pwerau AGGCC o dan y Ddeddf hon yn ymestyn i fyrddau iechyd lleol.

Gweithredu 6.4 a 6.5 [System integredig o arolygu iechyd a gofal cymdeithasol] [Adroddiadau blynyddol integredig]

- Mae'r tirlun arolygiaeth yn gymhleth. Cafodd hyn ei gydnabod yn yr adolygiad o Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (HIW) a gomisiynwyd ac a gyhoeddwyd yn Ionawr 2015 ac oedd yn atgyfnerthu'r materion a godwyd yn Adolygiad y Comisiynydd.
- Mae system integredig o arolygu iechyd a gofal cymdeithasol yn cael ei hystyried fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyrdd a ddaeth i ben ar 20 Tachwedd 2015. Mae swyddogion yn ystyried yr ymatebion a dderbyniwyd. Roedd yr amserlen ddeddfwriaethol yn golygu na fyddai wedi bod yn bosibl cynnwys cynnig o'r fath yn y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) heb fynd ar draws yr amser sydd angen ei dreulio'n ymgynghori ar y cynnig hwn fel rhan o'r Papur Gwyrdd.
- Gellid gwneud hyn drwy gyfrwng Bil Ansawdd Iechyd yn y dyfodol a allai gyflwyno rhesymeg glir ar gyfer y ffordd ymlaen. Fodd bynnag, mae hyn yn strategaeth hirdymor. Yn y tymor byr, bydd AGGCC a HIW yn parhau i rannu gwybodaeth ac yn parhau i gydweithredu lle mae pryderon difrifol am ofal mewn cartrefi nyrsio a gomisiynir gan GIG Cymru.
- Bydd y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol yn datblygu canllawiau i sicrhau dull cyson o integreiddio comisiynu gan wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Defnyddir hyn i oleuo unrhyw waith a wneir o dan y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) ac unrhyw Fil Ansawdd Iechyd yn y dyfodol.

Gweithredu 6.6 [Adroddiad blynyddol ar ansawdd y gofal clinigol a roddir i bobl hŷn mewn cartrefi nyrsio]

- O dan y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) mae'n ofynnol i bob darparwr baratoi adroddiad blynyddol. Bydd fformat yr adroddiad yn cael ei nodi yn y rheoliadau.
- Cafodd Safonau Hanfodion Gofal eu datblygu a'u cyhoeddi yn 2003 ac mae Archwiliad Hanfodion Gofal wedi'i gwblhau yng Nghymru bob blwyddyn ers 2009. Am y tro cyntaf yn 2014 cafodd archwiliad ei dreialu mewn lleoliadau cymunedol; o'r blaen yn yr ysbyty oedd yr archwiliad wedi cael ei wneud. Y bwriad oedd y byddai'r lleoliadau cymunedol yn cynnwys preswylwyr mewn cartrefi gofal a'r nod yw adeiladu ar hyn yn y dyfodol wrth i'r fframwaith monitro newydd gael ei ddatblygu.
- Cafodd safonau gofal iechyd y GIG eu hadolygu yn 2014/15 a lansiwyd y Safonau Iechyd a Gofal newydd ar 1 Ebrill 2015. Mae'r safonau newydd hyn yn ymgorffori safonau Hanfodion Gofal 2003. Mae system fonitro newydd ar gyfer y Safonau Iechyd a Gofal newydd yn cael ei dyfeisio fydd yn rhan o'r gwaith o fonitro perfformiad GIG Cymru ochr yn ochr â Fframwaith Canlyniadau GIG Cymru.
- Oherwydd bod 2015 yn flwyddyn interim wrth symud tuag at y fframwaith monitro newydd, defnyddiwyd yr offeryn archwilio Hanfodion Gofal eleni i gasglu barn cleifion am eu profiad o dderbyn gofal gyda'r bwriad o adrodd ar yr agwedd hon o'r archwiliad cenedlaethol i Lywodraeth Cymru. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, cesglir y data ym mis Hydref a Thachwedd a'i adrodd yn 2016.
- Yn y dyfodol, adroddir ar ganlyniad mesuriadau gofal penodol, fel codymau ac atal briwiau pwyso etc, drwy Fframwaith Monitro'r GIG a'r trefniadau i fonitro'r Safonau Iechyd a Gofal newydd. Cesglir y data ar adegau rheolaidd a mynych drwy'r flwyddyn er mwyn rhoi data ar dueddiadau drwy'r flwyddyn yn hytrach na dim ond ar un pwynt penodol. Bydd hyn yn disodli'r data sy'n cael ei hunan-adrodd gan staff drwy'r archwiliad Hanfodion Gofal blynyddol.

Gweithredu 7.1 [Cynllun cenedlaethol i sicrhau cyflenwad i'r dyfodol o gartrefi gofal o ansawdd uchel]

- O dan y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) mae'n rhaid i awdurdodau lleol baratoi adroddiad sefydlogrwydd marchnad blynyddol sy'n edrych ar y galw a'r cyflenwad yn y dyfodol.

Bydd dull ac adroddiad cenedlaethol ar y farchnad hefyd ar gael, wedi'i baratoi gan reoleiddwyr.

- Ar hyn o bryd mae'r Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol yn cyflawni dadansoddiad marchnad o'r ddarpariaeth cartrefi preswyl a nyrsio ar draws Cymru. Bydd y dadansoddiad marchnad yn rhoi darlun manwl o'r ddarpariaeth bresennol ac yn adnabod unrhyw fylchau pwysig. Bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud yn y 3-6 mis nesaf (gan ddisgwyl ei ddarparu ym Mai 2016). Bydd awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol wedyn yn gallu gweithio ochr yn ochr â darparwyr cenedlaethol a lleol i benderfynu sut fath o ddarpariaeth sydd ei angen yn y tymor canolig ac i nodi ym mha feysydd y byddai modelau eraill o ddarparu gwasanaeth efallai'n briodol.
- Mae Llywodraeth Cymru'n ymrwymedig i weithio â'r Comisiynydd a rhanddeiliaid allweddol eraill i ystyried y ffordd orau o symud ymlaen gyda'r argymhelliad hwn. Bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud dros y 6-12 mis nesaf (gan ddisgwyl ei ddarparu erbyn Tachwedd 2016).

Gweithredu 7.2 [Rhagolygon cynllunio gweithlu'r GIG]

- Bydd y gofyniad gweithredu hwn yn rhan o waith sydd eisoes ar y gweill drwy'r broses Cynllunio Tymor Canolig Integredig (IMTP). Cafodd y cynlluniau hyn eu comisiynu'n fwyaf diweddar ym mis Hydref 2015; cyn hynny cafodd yr adran addysg ei diweddarau i nodi'n glir bod angen i fyrddau / ymddiriedolaethau iechyd gysylltu â chyrff awdurdod lleol ac yn y sectorau annibynnol a phreifat wrth gyfrifo niferoedd comisiynu addysg.
- Fel rhan o'r broses hon mae'r Gwasanaeth Addysg a Datblygu'r Gweithlu (WEDS) yn cael trafodaethau rheolaidd â'r holl fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd i ystyried sail y niferoedd a ddarperir a hefyd yn ystyried rhaglenni cenedlaethol a allai gael effaith ar y niferoedd.
- Bydd angen i fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd loywi eu cynlluniau ar gyfer 2016/17 a bydd Llywodraeth Cymru'n achub ar y cyfle hwn i ddiweddarau'r canllawiau ar gynllunio'r gweithlu ar gyfer y sector gofal preswyl a nyrsio ymhellach.
- Bydd ffrwd waith y gweithlu hefyd yn ystyried materion yng nghyswllt cynllunio, recriwtio, hyfforddi a datblygu'r gweithlu. Bydd y gwaith hwn

yn cael ei wneud dros y 6-12 mis nesaf (gan ddisgwyl ei ddarparu erbyn Tachwedd 2016).

Atodiad E – Copi o lythyr gan y Comisiynydd i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn dilyn diweddariadau gan AGGCC a Llywodraeth Cymru

David Rees AC
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd, CF99 1NA

23 Rhagfyr 2015

Annwyl David

Cyflwyno tystiolaeth


Yn ychwanegol at y dystiolaeth ysgrifenedig rwyf wedi ei chyflwyno, fe welwch fy mod yn atodi copïau o lythyrau rwyf wedi eu hanfon at Brif Arolygydd AGGCC a'r Gweinidog Iechyd. Roeddwn yn meddwl y byddai'n ddefnyddiol i chi gael gweld y rhain cyn i mi fod yn bresennol yn y Pwyllgor.

Fe welwch o'r llythyrau fy mod bellach wedi cael digon o sicrwydd y bydd y ddau gorff hyn yn ymrwmo i fodloni'r mwyafrif o'm Gofynion ar gyfer Gweithredu ac i gyflawni'r canlyniadau a geisir.

Mae Ymchwiliad y Pwyllgor i Ofal Preswyl ar gyfer Pobl Hŷn a fy Adolygiad 'Lle i Alw'n Gartref?' wedi gwneud cyfraniad pwysig at sicrhau bod ansawdd bywyd pobl hŷn mewn cartrefi gofal wedi dod yn flaenoriaeth yng Nghymru. Rwyf eisoes wedi datgan fy mwriad i gynnal Adolygiad dilynol a fydd yn canolbwyntio'n gryf iawn ar ganlyniadau. Byddaf yn fodlon trafod hyn, ynghyd â'r camau gweithredu y byddaf yn eu cymryd yn y cyfamser, pan fyddaf yn dod i sesiwn y Pwyllgor.

Rwyf yn edrych ymlaen at ddod i gyfarfod y Pwyllgor fis Ionawr.

Yn gywir



Sarah Rochira
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Atodiad F: Copi o lythyr oddi wrth y Comisiynydd i'r Prif Arolygydd yn dilyn dadansoddiad o'r gwybodaeth ategol a ddarparwyd gan AGGCC

Imelda Richardson
Prif Arolygydd
AGGCC
Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ

23 Rhagfyr 2015

Annwyl Imelda

Diolch am eich llythyr dyddiedig 27 Tachwedd, a oedd yn dilyn ein cyfarfod adeiladol ar 25 Tachwedd. Roedd eich llythyr yn cynnwys gwybodaeth am amrywiaeth o gamau gweithredu yr ydych yn eu cymryd i sicrhau bod hawliau ac ansawdd bywyd wrth wraidd eich gwaith.

Mae'r wybodaeth hon wedi fy argyhoeddi o'ch ymrwymiad i fodloni fy Ngofynion ar gyfer Gweithredu ac i gyflawni'r canlyniadau a geisir.

Yn benodol, rwyf yn croesawu'r gwaith rydych wrthi'n ei gyflawni o ran fframwaith hawliau dynol, a'ch bwriad i brif-ffrydio hyn yn y Fframwaith Dyfarnu Ansawdd newydd a'r llawlyfrau i Ddarparwyr ac Arolygwyr yn 2016.

Rwyf hefyd yn croesawu datblygiad a gwaith y Fforwm Ansawdd, yn enwedig y fframwaith o gefnogaeth ymarferol wedi'i seilio ar dystiolaeth, er mwyn ysgogi gwella drwy ddull mwy safonol a chyson (comisiynu, darparu ac arolygu trylwyr) mewn meysydd allweddol, megis atal codymau, hydradu, maeth a meddyginiaeth ddiogel.

Er nad ydym yn cyd-weld o ran aseswyr lleyg, rwyf yn croesawu eich ymrwymiad i ymgysylltu'n ehangach â dinasyddion, ac yn falch o glywed eich bod yn trafod â'r Cyngor Iechyd Cymuned i archwilio pa gyfraniad y gallai eu gwirfoddolwyr ei wneud at y gwaith o arolygu a gwerthuso cartrefi gofal.

Diolch am eich ymrwymiad parhaus i wella ansawdd bywyd pobl hŷn mewn cartrefi gofal ac i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i bobl hŷn.

Yn gywir



Sarah Rochira
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Atodiad G: Copi o lythyr oddi wrth y Comisiynydd i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn dilyn dadansoddiad o'r ymateb terfynol / gwybodaeth ategol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru

Mark Drakeford AC
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd, CF99 1NA

23 Rhagfyr 2015

Annwyl Weinidog

Rwyf yn ysgrifennu atoch wedi i mi gael llawer o gyfarfodydd adeiladol â'ch swyddogion, ac ar ôl i mi gael eich llythyr dyddiedig 2 Rhagfyr a'r wybodaeth ddilynol a ddarparwyd gan eich swyddfa ynglŷn â'r camau gweithredu a oedd yn berthnasol i Lywodraeth Cymru sy'n deillio o'm Hadolygiad o Gartrefi Gofal, 'Lle i'w Alw'n Gartref?'.

Mae'r wybodaeth a gyflwynwyd wedi fy argyhoeddi o'ch ymrwymiad i fodloni'r mwyafrif o'm Gofynion ar gyfer Gweithredu ac i gyflawni'r canlyniadau a geisir.

Ar hyn o bryd, nid oes modd i mi gynnig barn ar rai o'r 20 o Ofynion ar gyfer Gweithredu sy'n berthnasol i Lywodraeth Cymru (5.2, 6.2, 6.4, 6.5, 7.1, 7.2), gan eu bod yn dal i ddatblygu drwy reoliadau neu ddeddfwriaeth arall. Byddaf yn parhau i weithio gyda'r Grŵp Llywio Cartrefi Gofal ac yn uniongyrchol gyda'ch swyddogion wrth i'r rheoliadau a'r deddfwriaethau perthnasol eraill gael eu datblygu.

Serch hynny, rwyf yn dal i boeni am un Gofyniad ar gyfer Gweithredu, sef 'adrodd am hanfodion gofal mewn cartrefi nyrsio', ac rwyf eisoes wedi cytuno i drafod hyn yn fanylach â'ch swyddogion.

Fel y gwyddoch chi, byddaf yn cynnal Adolygiad dilynol yn 2017, a byddaf yn cyhoeddi manylion yr Adolygiad hwnnw yn gynnar yn 2016. Yn y cyfamser, er mwyn sicrhau bod y gwaith cynnar sy'n mynd rhagddo eisoes yn cael yr effaith fwyaf bosib, rwyf wedi trefnu cyfres o gyfarfodydd â'ch swyddogion ynghyd â gofyn am ddiweddariadau chwarterol gan y Grŵp Llywio Cartrefi Gofal.

Diolch am eich ymrwymiad parhaus i wella ansawdd bywyd pobl hŷn mewn cartrefi gofal ac i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i bobl hŷn.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink that reads "Sarah Rochira". The script is cursive and fluid.

Sarah Rochira
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mark Drakeford AC / AM
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-P/MD/1608/15

David Rees AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Caerdydd
CF99 1NA

23 Rhagfyr 2015

Annwyl David

Diolch am eich llythyr dyddiedig 6 Tachwedd yn gofyn am ddiweddariad ysgrifenedig ar gynnydd, o ran yr argymhellion a wnaed o ganlyniad i ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i ofal preswyl. Derbyniwch fy ymddiheuriad, os gwelwch yn dda, am yr oedi cyn rhoi'r wybodaeth hon i chi.

Rwyf wedi cynnwys diweddariad ar gynnydd mewn perthynas â'r argymhellion penodol a wnaed yn adroddiad y Pwyllgor. Mae nifer o'r argymhellion hyn yn debyg i'r rheiny sydd wedi eu cynnwys yn adolygiad Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, ac felly rwyf wedi cynnwys copi o'r ymatebion diweddaraf a'r diweddariad ar gynnydd i'r Comisiynydd. Mae'r rhain yn cynnwys diweddariadau ar argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru, gan gynnwys rhai'n ymwneud â Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) yn ogystal â'r diweddariad diwethaf oddi wrth Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC).

In gywir,
Mark

Mark Drakeford AC
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Correspondence: Mark.Drakeford@wales.gsi.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 77

Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ynghylch Gofal Preswyl i Bobl Hŷn yng Nghymru

Argymhelliad allweddol 1:

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn cydnabod pwysigrwydd mynediad at gymorth eiriolaeth ar gyfer pob oedran drwy sefydlu ystyriaeth o anghenion eiriolaeth pobl fel rhan o fframwaith cydgyssylltiedig ar gyfer canfod a helpu'r rheiny sydd ag anghenion gofal a chymorth.

Mae cod ymarfer ynglŷn â chyflawni swyddogaethau'r gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas ag eiriolaeth (o dan ran 10 a rhannau cysylltiedig o'r Ddeddf) wedi cael ei gydgyhyrchu gan grŵp technegol gydag amrediad eang o randdeiliaid.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn cyflwyno gorchmynion amddiffyn a chefnogi oedolion a awdurdodir gan y llysoedd i alluogi swyddog yr awdurdod lleol i fynd i mewn i eiddo i siarad yn breifat â rhywun a all fod mewn perygl i weld a yw person yn rhydd i wneud penderfyniadau.

Mae'r Comisiynydd Pobl Hŷn wedi cydnabod, yn ei hadroddiad *Lle i'w Alw'n Gartref*, fod eiriolaeth annibynnol yn bwysig i sicrhau bod pobl hŷn yn medru gwneud penderfyniadau gwybodus ynghylch eu hanghenion gofal a chymorth yn y dyfodol.

Argymhelliad allweddol 2:

Ar hyn o bryd, mae gofyn i wybodaeth fod ar gael i'r holl unigolion sy'n symud i mewn i ofal preswyl yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys pawb a byddai felly'n cynnwys hunan-arianwyr.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn ei gwneud yn statudol ofynnol darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth a bod hwn mewn ffurf sy'n ddealladwy i'r unigolyn. Caiff y gofyn hwn ei gryfhau ar sail cyfreithiol drwy'r Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru).

Mae hefyd yn fwriad i gynhyrchu pecyn croeso a'i gyhoeddi fel rhan o ddatblygiad y rheoliadau a'r codau ymarfer fydd yn ategu'r Bil. Caiff gwaith i fynd i'r afael â'r argymhellion yn y fan hon ac yn adolygiad Comisiynydd Pobl Hŷn ei wneud drwy'r Grŵp Llywio Cartrefi Gofal a'r ffrwd gwaith arferion da.

Drwy gyfeirio ac atgyfeirio rhoddir dewisiadau i unigolion o blith y gefnogaeth a'r gwasanaethau sydd ar gael yn eu hardal leol. Rhydd hyn gyfle i siarad am y dewisiadau a chael cyngor ynghylch yr hyn sydd fwyaf tebygol o ateb eu hanghenion neilltuol hwy am ofal a chymorth, yn ogystal â thrafod pa adnoddau sydd gan yr unigolyn i sicrhau'r gefnogaeth hon. Mae'r gwasanaeth yn agored i bawb, beth bynnag fo'u hamgylchiadau, gan gynnwys y rhai sy'n dewis talu am eu gofal eu hunain.

Caiff yr argymhelliad ei ystyried ochr yn ochr â'r gofyniad yn y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru), o ran beth ddylai fod yn y rheoliadau statudol a'r codau ymarfer a beth ddylai fod yn arweiniad arferion da.

Argymhelliad allweddol 3:

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i asesu angen unigolyn (oedolyn neu blentyn) am ofal a chymorth, ac angen gofalwr am gefnogaeth. Bydd y broses asesu yn cynorthwyo unigolyn i nodi pa ofal a chymorth y bydd arno eu hangen er mwyn sicrhau ei ganlyniadau personol. Mae'r broses asesu yn gymesur ac yn ymateb i anghenion pobl ac yn gosod pwyslais ar gryfderau a galluoedd gan ganolbwyntio ar wasanaethau galluogi.

Mae'r offeryn cenedlaethol ar gyfer asesu a phenderfynu cymhwyster yn darparu fframwaith cyson ar gyfer asesu plant, oedolion a gofalwyr. Mae hwn wedi ei osod allan yn y cod ymarfer yn rhan 3 y Ddeddf (asesu anghenion unigolion).

Cafodd y trefniadau asesu, cynllunio ac adolygu integredig ar gyfer pobl hŷn eu cyhoeddi ym mis Rhagfyr 2013 i gymryd lle'r broses asesu unedig ar gyfer pobl 65 oed a throsodd. Roedd datblygu'r arweiniad hwn yn golygu ymgysylltu â rhanddeiliaid ac roedd yn ymateb uniongyrchol i alwadau gan bobl broffesiynol i symleiddio'r broses a gosod pobl yng nghanol y broses honno.

Mae'r asesiad integredig yn darparu arweiniad ymarferol i gynorthwyo awdurdodau lleol, byrddau iechyd a'u partneriaid i ddarparu ymateb integredig i bobl hŷn yng Nghymru. Yn neilltuol, mae'r arweiniad yn gofyn am benodi gweithiwr proffesiynol arweiniol, enwebedig, i gyd-drefnu a rheoli'r broses asesu, ac, yn fwyaf pwysig, i sicrhau bod unrhyw broblemau neu anawsterau o ran cyd-drefnu neu gwblhau asesiad yn cael eu datrys.

Mae'r gwaith hwn yn gosod y sylfaen ar gyfer y model o asesu a chynllunio gofal o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Mae'r rheoliadau a'r codau ymarfer o dan rannau 3 a 4 y Ddeddf yn gofyn i unigolyn enwebedig gyd-drefnu'r asesiad a chyd-drefnu'r cynllun gofal ar gyfer anghenion gofal a chymorth pobl, gan ganolbwyntio ar wella lles.

Argymhelliad allweddol 4:

Mae ein poblogaeth yng Nghymru yn cynyddu ac yn mynd yn hŷn, gyda mwy o bobl yn derbyn diagnosis o un neu ragor o gyflyrau iechyd tymor hir, megis dementia. O ganlyniad mae anghenion pobl eiddil ac oedrannus yn cynyddu.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i ddarparu system iechyd a gofal sydd wedi ei chynllunio o amgylch darparu gofal ataliol a pharhaus i ateb anghenion unigolion yn eu cymunedau lleol, mor agos i'w cartrefi ag y bo modd.

Mae cynllun gofal sylfaenol Llywodraeth Cymru yn gosod pwyslais ar fyrddau iechyd yn symud eu hadnoddau tuag at ofal sylfaenol seiliedig yn y gymuned, gyda chefnogaeth ysbytai a gwasanaethau eraill. Yn bwysig, mae'n ymwneud â chyd-drefnu mynediad i bobl at yr amrywiaeth helaeth o wasanaethau yn y gymuned leol i fod o gymorth i ateb eu hanghenion iechyd a lles.

Mae gan Lywodraeth Cymru gasgliad o gynlluniau cyflawni sy'n mynegi'r blaenoriaethau ar gyfer cyflyrau iechyd pwysig megis clefyd y galon, strôc, diabetes, gofal diwedd oes, iechyd meddwl. Defnyddir y cynlluniau hyn fel cyfrwng i ddatblygu gwasanaeth gofal sylfaenol a chymunedol cryf ac maent yn cynnwys camau gweithredu o gwmpas rheoli a hunan-reolaeth ar gyflyrau.

Caiff y cynlluniau eu hadnewyddu y flwyddyn nesaf a'u hystyngiadau hyd 2020. Mae hwn yn gyfle i sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r symudiad tuag at ofal seiliedig yn y gymuned. Caiff y blaenoriaethau ym mhob cynllun cyflawni eu gyrru ymlaen gan grŵp gweithredu sy'n cynnwys cynrychiolwyr y bwrdd iechyd, y trydydd sector a Llywodraeth Cymru. Mae blaenoriaethau'r cynlluniau cyflawni hefyd wedi eu halinio â chynlluniau tymor canol integredig y byrddau iechyd ac maent yn ffurfio rhan o Fframwaith Canlyniadau'r GIG.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo os oes gan berson gyflwr iechyd tymor hir y bydd yn cael cynnig cynllun gofal os bydd arno eisiau un. Cytundeb yw cynllun gofal rhwng yr unigolyn a'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol ynghylch yr hyn sydd ei angen i'w gynorthwyo i ymdopi â'i fywyd o ddydd i ddydd a gall fod yn ddogfen ysgrifenedig y mae'n ei chadw neu yn gytundeb llafar sydd wedi ei gofnodi yn ei nodiadau.

Ym mis Mai 2014, cafodd y Fframwaith ar gyfer Cytuno ar Ofal gyda Phobl sydd â Chyflyrau Tymor Hir ei gyhoeddi, sy'n esbonio beth yw cynllun gofal ac sy'n tynnu sylw at rai o'r manteision i unigolion ac i weithwyr proffesiynol hefyd. Eleni, cyhoeddwyd taflen gyhoeddus, a luniwyd mewn partneriaeth gyda Chynghrair y Cyflyrau Hirdymor, ar wefan Llywodraeth Cymru.

Argymhelliad allweddol 5:

Wrth graidd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) mae atal ac ymyrryd yn gynnwys ailalluogi.

Roedd cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2014/15 yn cynnwys cynigion i sefydlu Cronfa Gofal Canolraddol (ICF) o £50 miliwn i gynyddu cymorth ac annibyniaeth i bobl eiddil ac oedrannus sydd angen gofal canolraddol. Roedd £20 miliwn yn ychwanegol ar gael yn 2015/16 a bydd £50 miliwn o gyllid ar gael ar gyfer 2016/17.

Fe wnaeth y gwasanaethau cymdeithasol, mewn cydweithrediad ag iechyd, tai a phartneriaid o'r trydydd sector a'r sector annibynnol, ffurfio partneriaethau rhanbarthol i ddatblygu a pharatoi cynigion am gyllid gan yr ICF. O ganlyniad, mae modelau newydd ac arloesol o ddarparu gwasanaeth, gofal a chymorth, gan gynnwys ailalluogi, wedi cael eu datblygu.

Mae'r ICF wedi cefnogi amrywiaeth o fodelau gwahanol o ofal a chymorth gan gynnwys atebion atal ac ailalluogi, pwyntiau mynediad sengl, gwelliannau i dai a theleofal, timau ymateb yn gyflym, gofal dementia a chymorth gwaith cymdeithasol saith diwrnod yr wythnos. Rydym wedi gweld gallu'r system ofal yn cynyddu a mwy o gysondeb yn y gwasanaethau a ddarperir o fewn rhanbarthau o ganlyniad i arian ICF. Ni ellid cyflawni hyn ond drwy'r diwylliant o gydweithrediad a gweithio mewn partneriaeth sy'n cael ei hybu drwy'r ICF.

Mae'r holl ranbarthau wedi adrodd bod yr ICF wedi cyfrannu'n sylweddol at ddatblygu diwylliant o gydweithrediad a gweithio mewn partneriaeth. Mae hefyd wedi cynyddu gallu, wedi gwella cysondeb y gwasanaethau a ddarperir o fewn rhanbarthau ac wedi hwyluso'r broses o rannu addysg ar draws rhanbarthau.

Argymhelliad allweddol 6:

Bydd y Grŵp Llywio Cartrefi Gofal yn edrych ar arferion da yn y sector cartrefi gofal fel rhan o'i raglen waith. Caiff hyn ei wneud yn bennaf gan y ffrwd gwaith arferion da. Bydd y grŵp yn edrych ar arferion da a modelau newydd o ddarparu gofal. Bydd hyn yn cynnwys sut y gall preswylwyr (drwy fforymau preswylwyr o bosibl) a'u teuluoedd gymryd rhan fwy gweithredol yn y ffordd y mae gofal a chymorth yn cael ei ddarparu er mwyn sicrhau ei fod yn ateb eu hanghenion.

Mae gan y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol swyddogaeth allweddol mewn gosod safonau a chanllawiau clir ar gyfer comisiynu gwasanaethau. Bydd yn ystyried sut y mae'r ymarfer da a nodwyd gan y Grŵp Llywio Cartrefi Gofal yn cael ei drosi yn ymarfer safonol.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn trawsnewid y ffordd y mae gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu darparu, yn bennaf drwy hybu annibyniaeth pobl er mwyn rhoi llais cryfach iddynt. Bydd integreiddio a symleiddio'r gyfraith hefyd yn cynnig mwy o gysondeb ac eglurder i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau cymdeithasol, eu gofalwyr a'u teuluoedd, staff yr awdurdod lleol a'r cyrff sy'n bartneriaid iddynt, y llysoedd a'r farnwriaeth. Mae'r Ddeddf yn hybu cydraddoldeb, gwelliannau yn ansawdd y gwasanaethau a'r wybodaeth a ddarperir ar gyfer pobl, a rhannu'r pwyslais ar atal ac ymyrryd yn gynnar.

Bydd y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth yn wasanaeth hygyrch, fydd yn rhoi gwybodaeth i bobl am y ffordd y mae'r system ofal yn gweithio a materion eraill fyddai'n galluogi rhywun i gynllunio sut i ateb eu hanghenion am ofal a chymorth. Drwy gyfeirio ac atgyfeirio rhoddir dewisiadau i unigolion, gan gynnwys y rheiny sy'n talu am eu gofal eu hunain, o blith y gefnogaeth a'r gwasanaethau sydd ar gael yn eu hardal leol.

Argymhelliad allweddol 7:

Bydd cynnwys ac annog unigolion i gymryd rhan weithredol mewn cynnal a gwella eu hiechyd a'u lles yn sicrhau bod preswylwyr cartrefi gofal yn aros yn annibynnol.

Mae'r Grŵp Llywio Cartrefi Gofal yn edrych ar beth y mae gofal o safon, unigolyn-ganolog, yn ei olygu'n ymarferol a bydd y ffrwd gwaith arferion da yn tynnu ynghyd arweiniad ymarferol ac astudiaethau achos o'r hyn sy'n gweithio ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys edrych ar bryd bwyd fel digwyddiad cymdeithasol drwy gynnwys teulu neu gyfeillion neu esiamplau lle mae'r preswylwyr yn cymryd rhan mewn gwaith ymarferol, megis cynorthwyo i baratoi prydau.

Er mwyn cefnogi hyn mae amrywiaeth o waith yn cael ei wneud drwy'r cynllun cenedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol. Mae hyn yn cynnwys nodi ac ateb anghenion pawb, gan gynnwys y rheiny sy'n byw mewn cartrefi gofal, er mwyn cynnal a gwella eu hiechyd a'u lles. Caiff cyflawniad yn erbyn y cynllun cenedlaethol ei fonitro a bydd y wybodaeth ar gael i'r cyhoedd fel y gall pobl weld y cynnydd sy'n cael ei wneud. Mae'r amserlen ar gyfer y gwaith hwn yn dal i gael ei datblygu.

Bydd adolygiad o'r gwasanaeth gwell a ddarperir gan y Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (GMS) yn cymryd i ystyriaeth yr argymhellion manwl a wnaed gan Gomisiynydd Pobl Hŷn. Disgwylir y bydd y ddarpariaeth gwasanaeth gwell ddiwygiedig ar gyfer cartrefi gofal yn dod yn weithredol o Ebrill 2016. Caiff canlyniad y gwasanaeth gwell ei adolygu'n flynyddol. Mae adolygiad y GMS yn cynnwys cynigion ar gyfer asesiad cychwynnol cyfannol newydd o iechyd meddyliol a chorfforol preswylwyr, sydd i gael ei ddarparu o fewn 28 diwrnod o'u derbyn, ac adolygiad blynyddol cynhwysfawr, ynghyd ag o leiaf un adolygiad o feddyginiaeth. Bydd gofal diwedd oes yn rhan o'r adolygiad. Bwriedir i feddygon teulu feddu ar gofrestr o gleifion yr ystyrir eu bod yn 12 mis olaf eu bywyd. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl trefnu gofal unigolyn-ganolog; cynllun i osod allan y gofal a'r driniaeth briodol a chymorth i alluogi'r unigolyn i farw yn y lle sydd orau ganddo. Bydd cartrefi gofal yn cael mynediad at dimau gofal lliniarol arbenigol.

Argymhelliad allweddol 8:

Bydd ffrwd waith y gweithlu, o fewn y Grŵp Llywio Cartrefi Gofal, yn ystyried materion yn ymwneud â'r gweithlu, gan gynnwys hyfforddiant a datblygiad ar draws y GIG a sectorau eraill, gan gynnwys gofal cymdeithasol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn mapio'r hyfforddiant a ddarperir eisoes ac yn ystyried ymchwil gyfredol mewn ymgais i fynd i'r afael â'r amrywiadau yn ansawdd hyfforddiant a mynediad at hyfforddiant, drwy osod allan fframwaith sy'n defnyddio dulliau seiliedig ar dystiolaeth. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl cyfeirio at y ddarpariaeth hyfforddiant briodol.

Mae Cyngor Gofal Cymru wedi cynnal arolwg trylwyr er mwyn dod i wybod mwy am nodweddion, cymhelliad a barn y gweithlu, sy'n ffurfio'r gyfran fwyaf

o weithwyr gofal yng Nghymru. Mae hefyd wedi comisiynu fframwaith dysgu ac adnodd ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol sy'n gweithio gyda phobl y mae dementia wedi effeithio arnynt.

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chyngor Gofal Cymru a Fforwm Gofal Cymru i benderfynu a ddylid cael deilliannau cytunedig ar gyfer hyfforddi'r gweithlu er mwyn safoni cymwysterau.

Argymhelliad allweddol 9:

Bydd Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) yn sefydlu'r fframwaith y bydd rhaid i gartrefi gofal weithredu o'i fewn. Bydd hwn yn cynnwys safonau gofal ar gyfer gofal corfforol integredig a chydgyssylltiedig, gan gynnwys diffygion synhwyrdd, iechyd y geg, lles dietegol, ymarfer corfforol, anghenion iechyd meddwl, megis dementia, rhyngweithio cymdeithasol a gofal ataliol.

Mae'r Bil yn esbonio'n glir y categorïau gwasanaeth y bydd rhaid eu cofrestru, gan gynnwys cartrefi gofal. Cyfrifoldeb darparwr gwasanaethau cofrestredig, gan gynnwys cartrefi gofal, fydd datgan yn ei "ddatganiad o ddiben" fanylion y gwasanaethau y mae yn eu darparu a sut y bydd yn ateb anghenion pobl fydd yn defnyddio'r gwasanaeth. Caiff y gwasanaeth ei arolygu yn erbyn ei allu i ateb anghenion preswylwyr ar sail ei "ddatganiad o ddiben".

Wrth i'r cod a'r arweiniad statudol gael ei ddatblygu bydd angen i ni fod yn benodol ynghylch y mathau gwahanol o wasanaeth sydd eu hangen a'r angen arbennig sydd angen ei ddiwallu. Bydd ar y rheoleiddiwr angen system i wahaniaethu rhwng y gwahanol fathau o wasanaeth ac arolygu yn unol â hynny.

Cyfrifoldeb y darparwr fydd sicrhau bod trefniadau yn eu lle, gan gynnwys staff medrus sydd wedi derbyn hyfforddiant addas, i gyfarfod ag anghenion unigolion sy'n byw yn y cartref gofal. Bydd y dull hwn yn dileu'r angen i bobl symud o gartref gofal oherwydd eu bod wedi derbyn diagnosis o ddementia.

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a gweithwyr proffesiynol er mwyn ymgymryd â hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth o anghenion pobl â dementia mewn lleoliad cartref gofal.

Argymhelliad allweddol 10:

Mae Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol baratoi adroddiad sefydlogrwydd marchnad blynyddol, fydd yn edrych ar y cyflenwad a'r galw yn y dyfodol. Bydd hefyd ddull cenedlaethol ac adroddiad ar y farchnad wedi ei baratoi gan reoleiddwyr.

Disgwylir i ddarparwyr adrodd yn flynyddol i'r awdurdod lleol, fel comisiynydd gwasanaethau, ynghylch y modd y maent yn cyrraedd eu targedau o ran eu sefydlogrwydd ariannol yn ogystal ag ansawdd a swm y gofal y maent yn ei ddarparu.

Mae'r Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol ar hyn o bryd yn cynnal ymarferiad dadansoddi'r farchnad gyda golwg ar y cartrefi preswyl a nyrsio sy'n cael eu darparu ar draws Cymru. Bydd dadansoddiad y farchnad yn rhoi darlun manwl o'r ddarpariaeth gyfredol yn ogystal â nodi unrhyw fylchau sylweddol. Bydd hyn yn galluogi awdurdodau lleol a byrddau iechyd i weithio ochr yn ochr â darparwyr cenedlaethol a lleol i benderfynu ar y math o ddarpariaeth sydd ei hangen yn y tymor canolig ac i ganfod meysydd lle y gallai modelau gwahanol o ddarparu gwasanaeth fod yn addas.

Argymhelliad allweddol 11:

Fe wnaeth Comisiynydd Pobl Hŷn, ar gais y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd, gynnull grŵp gorchwyl a gorffen i edrych ar yr arweiniad ynghylch cau cartref gofal, *Pryderon Cynyddol*. Oherwydd y datblygiadau mewn perthynas â'r Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru), gofynnwyd i'r Comisiynydd ailymgysylltu â'r grŵp ac ystyried unrhyw newidiadau pellach sydd eu hangen i'r arweiniad.

Mae'r Comisiynydd wedi ysgrifennu at yr holl aelodau yn gofyn am eu hadborth a bydd yn ystyried ac yn rhoi cyngor pellach i Lywodraeth Cymru yn y Flwyddyn Newydd.

Argymhelliad allweddol 12:

Bu gan Lywodraeth Cymru raglen gyfalaf tai gofal ychwanegol o'r blaen. Ers 2011, mae datblygu tai gofal ychwanegol wedi bod yn rhan o drefniadau ehangach Grant Tai Cymdeithasol ac mae darparwyr a datblygwyr wedi edrych am ffurfiau eraill o fuddsoddiad cyfalaf cyhoeddus a phreifat. Yn fwy diweddar, mae defnyddio fflatiau gofal canolraddol o fewn cyfleusterau gofal ychwanegol wedi bod yn nodwedd o'r Gronfa Gofal Canolraddol (ICF).

Sefydlwyd Cronfa Gofal Canolraddol Llywodraeth Cymru i ddarparu cymorth i bobl hŷn er mwyn eu galluogi i gadw eu hannibyniaeth. Mae'r gronfa wedi ei gwneud yn bosibl datblygu partneriaethau rhanbarthol ar draws y gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, tai a'r trydydd sector a'r sector annibynnol. Mae pob un wedi cyflawni amrywiaeth o gynlluniau, megis cynorthwyo i leihau nifer y codymau, sy'n gyffredin ymhlith pobl hŷn, drwy osod canllawiau. Mae mentrau mwy, megis fflatiau gofal canolraddol o fewn cyfleusterau gofal ychwanegol, wedi bod o gymorth i bobl fedru manteisio ar amrywiaeth o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol o dan yr unto ac osgoi derbyniadau diangen i'r ysbyty. Mae hyn yn ei gwneud yn bosibl i wely ysbyty aros yn wag, tra bydd yr unigolyn yn parhau i dderbyn gofal byrdymor.

Caiff gwaith pellach ei wneud ar y cyd dan arweiniad Cyfarwyddiaeth Dai Llywodraeth Cymru i ystyried datblygu strategaeth dai benodol ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru. Bydd y grŵp gorchwyl a gorffen hwn yn cynnwys cynrychiolaeth o awdurdodau lleol, iechyd, tai a phobl hŷn a bydd hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a datblygwyr preifat er mwyn sicrhau bod dull system gyfan yn cael ei fabwysiadu. Bydd y

grŵp hwn yn ystyried darparu tai gyda chymorth ar gyfer pobl hŷn; bydd hyn yn cynnwys swyddogaeth ac effaith tai gofal ychwanegol ar draws Cymru.

Argymhelliad allweddol 13:

Drwy'r Gronfa Gofal Canolraddol (ICF), mae cyllid wedi ei fuddsoddi i gefnogi mynediad at iechyd a gofal cymdeithasol integredig fel bod mwy o bobl yn derbyn gofal gartref neu yn agos i'w cartref, gan osgoi derbyniadau diangen i'r ysbyty neu oedi cyn eu rhyddhau o ysbyty. Rhoddwyd £50 miliwn ar gael ar gyfer 2014/15, gydag £20 miliwn ar gyfer 2015/16 a bydd £50 miliwn ar gael ar gyfer 2016/17.

Mae'r ICF wedi cefnogi amrywiaeth o fodelau gwahanol o ofal a chymorth gan gynnwys datrysiadau atal ac ailalluogi, pwyntiau mynediad sengl, gwelliannau i dai a theleofal, timau ymateb yn gyflym, gofal dementia a chymorth gwaith cymdeithasol saith diwrnod yr wythnos. O ganlyniad, rydym wedi gweld gallu'r system ofal yn cynyddu a mwy o gysondeb yn y gwasanaethau a ddarperir o fewn rhanbarthau. Ni ellid cyflawni hyn ond drwy'r diwylliant o gydweithrediad a gweithio mewn partneriaeth sy'n cael ei hybu drwy'r ICF.

Ar lefel ranbarthol y mae cronfa'r ICF wedi cael ei rheoli, gydag awdurdod lleol arweiniol yn gweithio gyda phartneriaid eraill i ddatblygu cynigion a phrosiectau a sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni. Mae enghreifftiau o rai o'r prosiectau a gyllidwyd drwy'r ICF yn cynnwys:

- Pwynt mynediad sengl i gyd-drefnu'r amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael ar draws y sector cyhoeddus a'r trydydd sector i gynorthwyo pobl hŷn i gadw eu hannibyniaeth;
- Creu Tŷ Smart i godi ymwybyddiaeth a darparu cyfle i bobl hŷn a'u teulu weld a rhoi cynnig ar yr hyn y gellir ei ddarparu yn amgylchedd y cartref;
- Prosiect nam ar y golwg ac ar y clyw i gefnogi byw'n annibynnol;
- Gwasanaeth integredig yn y cartref sy'n canolbwyntio ar gadw annibyniaeth yn y cartref ac osgoi gorfod mynd i'r ysbyty;
- Estyniad i brosiect y Glöyn Byw i wella ymarfer ar gyfer pobl hŷn â dementia - i gynnwys cartrefi preswyl a nyrsio yn ogystal ag ymestyn i ofal yn y cartref;
- Datblygu a chynnal peilot ar wasanaethau saith diwrnod yr wythnos i ganolbwyntio ar atal derbyn i'r ysbyty ac i gefnogi rhyddhau cleifion yn fuan;
- Timau ymateb yn gyflym (gan gynnwys wardiau rhithiol);
- Gwasanaethau ailalluogi gan gynnwys therapyddion galwedigaethol i gefnogi annibyniaeth yn y cartref;
- Cynyddu tai gwarchod;
- Cynllun gofal gwell-gartref y trydydd sector;
- Darpariaeth gofal a thrwsio ar sail ymateb cyflym;
- Cymorth y trydydd sector i ddatblygu gwasanaethau cyfnos yn ystod y cyfnod yn syth ar ôl dod adref o'r ysbyty;
- Datblygu swyddogaeth newydd gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol;
- Sefydlu fflatiau gofal canolraddol a fflatiau 'symud-ymlaen' dementia.

At hynny, mae adran 16 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i hybu mentrau cymdeithasol yn eu hardal, cydweithrediadau, gwasanaethau dan arweiniad defnyddwyr a'r trydydd sector i ddarparu gofal a chymorth a gwasanaethau ataliol. Caiff y ddarpariaeth hon ei chefnogi gan y cod ymarfer ar gyfer rhan 2 y Ddeddf, a rheoliadau a wnaed dan adran 16.

Bwriad y ddarpariaeth hon yw agor y farchnad gofal cymdeithasol i fyny a dargyfeirio, a sicrhau bod y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau, gofalwyr a staff yn cymryd rhan mewn cynllunio a gweithredu'r gwasanaethau. Mae egwyddorion cydgynhyrchu wedi eu hysgrifennu yn y cod ymarfer. Mae'r polisi hwn yn ymwneud â defnyddio ffynonellau mewnol yn hytrach na ffynonellau allanol.